Ministry of Justice

# Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol

## Ymgynghoriad ychwanegol 2023

Gorffennaf 2023

CP 865

Ministry of Justice

# Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol

## Ymgynghoriad ychwanegol 2023

Cyflwynwyd i Senedd y DU
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Gorffennaf 2023

CP 865

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom i'r cyfeiriad canlynol:cics-review@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-4156-2

E02920603 07/23

Argraffwyd ar bapur sy’n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau wedi’u hailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Gwybodaeth am yr ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **At:** | Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at y cyhoedd, dioddefwyr a goroeswyr, grwpiau dioddefwyr, academyddion ac arbenigwyr clinigol. Rydym hefyd yn croesawu sylwadau gan weithwyr proffesiynol ym maes cyfiawnder troseddol, iechyd, lles, awdurdodau lleol a'r sector elusennau. |
| **Hyd:** | O 18/07/22 hyd at 15/09/23 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) at:** | Vulnerability and Criminal Law Policy Unit<br><br>Ministry of Justice<br>Victims, Vulnerability and Criminal Law Policy Directorate<br>7th Floor<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: cics-review@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn 15 Medi 2023 at:<br><br>Victims, Vulnerability and Criminal Law Policy Directorate<br>Ministry of Justice<br><br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: cics-review@justice.gov.uk |
| **Papur ymateb:** | Disgwylir y bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn: https://consult.justice.gov.uk/ |

# Cynnwys


**Rhagair** **3**

**Crynodeb gweithredol** **5**

Ein dull gweithredu 6

**Cyflwyniad** **9**

**Cefndir yr ymgynghoriad hwn** **10**

**Cwmpas y Cynllun: diwygiadau posibl** **13**

Cwmpas a gweithredu'r Cynllun 13

Opsiynau posibl ar gyfer diwygio 18

**Ymestyn terfynau amser y Cynllun: diwygiadau posibl** **24**

Terfynau amser a'u gweithredu 24

Opsiynau posibl ar gyfer diwygio 28

**Holiadur** **35**

Cwmpas **Error! Bookmark not defined.**

Terfynau Amser 35

Cydraddoldeb 36

**Amdanoch chi** **37**

**Manylion cysylltu/Sut mae ymateb** **38**

Cwynion neu sylwadau 38

Copïau ychwanegol 38

Cyhoeddi ymateb 38

Grwpiau cynrychioliadol 38

Cyfrinachedd 39

**Egwyddorion ymgynghori** **40**

**Atodiad A: Datganiad Cydraddoldeb** **41**

# Rhagair

Mae iawndal a ariennir gan y wladwriaeth yn gydnabyddiaeth bwysig o’r niwed a ddioddefir gan ddioddefwyr troseddau treisgar. Mae’r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (y Cynllun) yn bodoli i gefnogi pob dioddefwr cymwys sydd wedi dioddef troseddau treisgar ac sydd wedi dioddef yr anafiadau mwyaf difrifol, fel rhan o becyn ehangach o wasanaethau cymorth gan y llywodraeth. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol ac yn deg, mae’r Cynllun yn cydbwyso’r ystyriaeth a roddir i anghenion ymgeiswyr unigol o fewn set gyffredinol a thryloyw o reolau a meini prawf cymhwysedd. Yn 2021–22 roedd cyfanswm y taliadau i gefnogi adferiad dioddefwyr yn dros £158 miliwn.

Rydym wedi bod yn adolygu’r Cynllun i weld a yw’n dal yn addas i’r diben, ac yn cefnogi dioddefwyr yn effeithiol yn eu hadferiad. Yn 2020, fe wnaethom ymgynghori ar gynigion a oedd yn canolbwyntio ar wneud y Cynllun yn symlach ac yn haws i bobl ei ddeall ac ymgysylltu ag ef.

Yn ystod haf 2022, fe wnaethom gynnal ymgynghoriad atodol ynghylch a ddylid newid y rheol euogfarnau heb eu disbyddu, fel y’i gelwir, sy’n atal rhai unigolion sydd wedi cyflawni troseddau difrifol rhag elwa o iawndal a ariennir gan y wladwriaeth, a gall arwain at lai o ddyfarniadau i eraill. Gwnaethom hyn yn unol â dyfarniad Awst 2021 gan yr Uchel Lys nad oeddem wedi bodloni disgwyliad dilys i ymgynghori ynghylch a ddylid diwygio’r rheol fel yr argymhellwyd gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (yr Ymchwiliad) yn 2018.

Mae cyhoeddi adroddiad terfynol yr Ymchwiliad ym mis Hydref 2022 yn foment bwysig yn ein holl ymdrechion system i fynd i’r afael â cham-drin plant yn rhywiol. Rydym yn cydnabod dewrder anhygoel y 7,300 o ddioddefwyr a goroeswyr unigol a ddaeth ymlaen i rannu eu straeon a’u tystiolaeth gyda’r Ymchwiliad a’r cyhoedd. Mae adroddiad yr Ymchwiliad yn cynnwys dau argymhelliad ychwanegol ar gyfer y Cynllun, sy’n ymwneud â chymhwyso ei gwmpas a’i derfynau amser ar gyfer dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol.

Roeddem wedi ymrwymo yn ymateb y Llywodraeth i’r Ymchwiliad (a gyhoeddwyd ar 22 Mai 2023) i ymgynghori ar yr argymhellion hyn. Bydd hyn yn caniatáu i ni roi ystyriaeth briodol i waith pwysig yr Ymchwiliad ac ystyried a ddylid gwneud newidiadau i’r Cynllun o ganlyniad. Er ein bod wedi ystyried cwmpas a therfynau amser fel rhan o’r adolygiad, nid oeddem wedi cynnwys cwestiynau penodol am newidiadau i’r meini prawf penodol hyn yn ymgynghoriad 2020. Er bod dim newid yn opsiwn o hyd, rydym wedi edrych eto ar y ddau yng ngoleuni argymhellion yr Ymchwiliad ac wedi ystyried sut y gellid gwneud newidiadau i’r Cynllun.

Fel y ddau ymgynghoriad o'i flaen, mae'r ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar egwyddorion allweddol y Cynllun: ei fod yn gynllun cyffredinol sy'n bodoli i gefnogi holl ddioddefwyr cymwys troseddau treisgar sydd wedi dioddef yr anafiadau mwyaf difrifol, bod iawndal yn gydnabyddiaeth bwysig a chyhoeddus o'u dioddefaint, a bod argaeledd iawndal am anafiadau troseddol yn rhan o'r gwasanaethau cymorth cyffredinol ac arbenigol ehangach sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau treisgar. Dylid diogelu iawndal ar gyfer y rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan eu hanafiadau, ac mae angen i'r Cynllun fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn ariannol er mwyn parhau i wneud hynny.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ddau ymgynghoriad blaenorol. Yn dilyn y trydydd ymgynghoriad hwn, edrychwn ymlaen at rannu ein casgliadau a'n cynigion ynghylch newidiadau i'r Cynllun er mwyn i ni allu gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau bod dioddefwyr troseddau treisgar yn gallu parhau i gael iawndal i'w helpu i oresgyn eu hanafiadau a symud ymlaen gyda'u bywydau.

**Y Gwir Anrhydeddus Edward Argar AS**

Gweinidog Gwladol

# Crynodeb gweithredol

1. Mae iawndal, ynghyd â mynediad at gymorth emosiynol ac ymarferol, yn un ffordd y gall cymdeithas gydnabod y niwed corfforol a meddyliol difrifol y mae dioddefwyr troseddau treisgar wedi'i brofi, a'u helpu i wella. Mae Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 (y Cynllun) yn gam olaf i'r rheini nad ydynt yn gallu ceisio neu gael iawndal am eu hanafiadau drwy ddulliau eraill. Rydym wedi bod yn adolygu'r Cynllun i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben ac i nodi lle gellid gwneud mwy i gefnogi dioddefwyr yn effeithiol yn eu hadferiad, ac i ymgynghori ar gynigion i gyflawni hyn.

2. Pwrpas craidd y Cynllun, a ail-ategwyd drwy gydol ein hadolygiad a dau ymgynghoriad blaenorol, yw cydnabod, drwy iawndal, y niwed a ddioddefir gan ddioddefwr a anafwyd o ganlyniad i drosedd treisgar. Mae'r Cynllun yn un cyffredinol, ac er y bydd pob unigolyn a phob achos yn wahanol, rhaid iddo weithio'r un fath i bob un sy'n dioddef trosedd treisgar. Felly, mae'n hanfodol bod pob ymgeisydd yn dilyn yr un meini prawf cymhwysedd, gofynion a thariffau anafiadau, a bod pob cais yn cael ei asesu yn erbyn y rhain. Mae hyn yn sicrhau nad oes hierarchaeth o ddioddefwyr, ac y gellir gwneud penderfyniadau mewn ffordd gyson, deg a thryloyw.

3. Yn 2020, yn dilyn adolygiad, a oedd yn seiliedig ar ddadansoddiad gofalus o ddata, o oddeutu 75,000 o hawliadau a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA) ac a oedd yn cael eu harwain gan egwyddorion hirdymor y Cynllun, fe wnaethom gynnal ymgynghoriad ar nifer o gynigion a oedd â'r bwriad o ddarparu gwell mynediad at iawndal i ddioddefwyr troseddau treisgar, gan sicrhau bod y Cynllun yn parhau i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn ariannol. Roedd yr ymgynghoriad yn trafod cefndir y Cynllun, ei gwmpas a'i bwrpas, y rheolau cymhwysedd, a strwythur ei ddyfarniadau a'i dariffau, gan egluro'r rhesymeg dros unrhyw newidiadau a gyflwynwyd, a pham ein bod wedi penderfynu gadael meysydd eraill heb eu newid. Ni chynigiwyd unrhyw newid i gwmpas, terfynau amser na rhai rheolau cymhwysedd y Cynllun ac felly ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau penodol ar y pynciau hynny.

4. Ym mis Awst 2021, datganodd yr Uchel Lys fod y Strategaeth Dioddefwyr trawslywodraethol (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018) wedi creu disgwyliad dilys o ymgynghori ar ddiwygio'r rheol euogfarnau heb eu disbyddu yn y Cynllun. Gan nad oedd ymgynghoriad 2020 yn cynnwys cwestiwn penodol am y rheol hon, gorchmynnodd y llys bod ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal ynghylch a ddylid diwygio'r rheol fel nad yw ceisiadau'n cael eu gwrthod yn awtomatig mewn amgylchiadau lle mae euogfarnau troseddol ymgeisydd yn debygol o gael eu cysylltu â'u cam-drin yn rhywiol fel plentyn (yn unol ag argymhelliad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (yr Ymchwiliad)), ac y dylid gwneud

penderfyniad ar newidiadau i'r rheol ar ôl i hyn gael ei gwblhau.[1] Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwnnw rhwng 9 Mehefin a 5 Awst 2022.

5. Ar 20 Hydref 2022, cyhoeddodd yr Ymchwiliad ei adroddiad terfynol. Yn ogystal ag ailddatgan argymhelliad yr Adroddiad Interim ar y rheol euogfarnau heb ei ddisbyddu, roedd argymhelliad 18 yn cynnig dau newid arall i'r Cynllun: yn gyntaf, dylid ymestyn y cwmpas i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein; ac yn ail, cynyddu'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau am gam-drin plant yn rhywiol i saith mlynedd o'r ddwy bresennol.[2]

6. Er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i argymhelliad diweddaraf yr Ymchwiliad, fe wnaethom ymrwymo yn ymateb y Llywodraeth i adroddiad terfynol yr Ymchwiliad (a gyhoeddwyd ar 22 Mai 2023) i gynnal yr ymgynghoriad hwn. Rydym yn gwahodd sylwadau penodol ar ddiwygiadau posibl i gwmpas a therfynau amser y Cynllun, gan gynnwys y rhai a argymhellwyd gan yr Ymchwiliad, ochr yn ochr â'r opsiwn o beidio â diwygio. Bydd hyn yn golygu bod modd gwneud penderfyniadau ar ffurf a sylwedd y Cynllun yn y dyfodol gyda mewnbwn o'r ymatebion i'r tri ymgynghoriad. Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i'r tri ymgynghoriad maes o law.

## Ein dull o weithredu

7. Rydym wedi defnyddio set wedi'i diweddaru o ddata llwyth achosion gan CICA (ar gyfer 2020–22) i lywio'r ymgynghoriad hwn, gan fod data 2016–19 a ddefnyddiwyd mewn ymgynghoriadau blaenorol bellach wedi dyddio ac roeddem am sicrhau ein bod yn cofnodi'r tueddiadau diweddaraf.

8. Yn **Adran Un**, rydym yn ystyried pwrpas a chwmpas y Cynllun fel ffordd o wneud iawn i ddioddefwyr troseddau treisgar a sut mae hyn yn effeithio ar geisiadau sy'n ymwneud â throseddau a gyflawnir mewn gwahanol ffyrdd, na fydd efallai'n golygu

---

[1]Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, Ebrill 2018, Adroddiad Interim yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, adran 5.2. https:///www.iicsa.org.uk/publications/im/interim

[2]Mae'r Ymchwiliad yn argymell bod llywodraeth y DU yn diwygio'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol er mwyn:

- cynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin rhywiol a hwylusir ar-lein;
- diwygio'r rheol ar euogfarnau heb eu disbyddu fel nad yw ymgeiswyr sydd ag euogfarnau heb eu disbyddu yn cael eu heithrio'n awtomatig pan fydd troseddau'n debygol o fod yn gysylltiedig ag amgylchiadau eu cam-drin yn rhywiol fel plentyn; a
- chynyddu'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau am gam-drin plant yn rhywiol fel bod gan ymgeiswyr saith mlynedd i wneud cais o (a) y dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r heddlu am y drosedd neu (b) yn 18 oed, lle rhoddwyd gwybod am y drosedd pan oedd y dioddefwr yn blentyn. O dan y naill amgylchiad neu'r llall, mae disgresiwn y swyddog hawliadau i ymestyn y terfyn amser yn parhau.

https://www.iicsa.org.uk/reports-recommendations/publications/inquiry/final-report/ii-inquirys-conclusions-and-recommendations-change/part-i-making-amends/i5-financial-redress.html

bod y dioddefwr yn yr un lle neu’n cael cyswllt â’r cyflawnwr. Rydym yn edrych ar argymhelliad yr Ymchwiliad i ymestyn cymhwysedd i droseddau rhywiol digyswllt yn erbyn plant, gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol ar-lein, a sut mae hyn yn rhyngweithio â phwrpas craidd y Cynllun. Rydym yn gofyn am farn ar ddau opsiwn ar gyfer ymestyn cwmpas y Cynllun, gan gynnwys gweithredu argymhelliad yr Ymchwiliad, yn ogystal â chadw’r cwmpas presennol.

9. Yn **Adran Dau**, rydym yn ystyried y rhesymeg a’r angen am derfynau amser yn y Cynllun, yn ogystal â’r hyblygrwydd sydd gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol o ran derbyn ceisiadau y tu allan i’r terfynau hyn mewn amgylchiadau eithriadol. Rydym yn edrych ar y galwadau am newidiadau i weithrediad y cyfyngiadau amser hyn, gan gynnwys argymhelliad yr Ymchwiliad i ymestyn y terfyn i saith mlynedd ar gyfer dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol. Gan bwyso a mesur y rhain yn erbyn egwyddorion y Cynllun, rydym yn gofyn am farn ar addasrwydd cynnal y terfynau presennol, yn ogystal ag amrywiaeth o ddulliau eraill.

10. Bydd penderfyniadau ynghylch a ddylid diwygio cwmpas a therfynau amser y Cynllun yn cael eu gwneud ar y cyd â phenderfyniadau ynghylch a ddylid diwygio’r rheol euogfarnau heb eu disbyddu ac i weithredu unrhyw rai o’r newidiadau eraill rydym wedi ymgynghori arnynt yn ystod yr adolygiad o’r Cynllun. Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried yn ofalus yr holl safbwyntiau a sylwadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr i’r ymgynghoriad hwn a’r ddau ymgynghoriad blaenorol yn 2020 a 2022.

11. Rydym wedi ymrwymo i gadw’r Cynllun yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn ariannol er mwyn iddo allu parhau i ddarparu iawndal i ddioddefwyr sydd wedi’u hanafu’n ddifrifol neu wedi cael profedigaeth o ganlyniad i droseddau treisgar. Rhaid i unrhyw newidiadau i’r Cynllun fod yn ystyriol o’r pwysau ar gyllid cyhoeddus, gan gynnal ein hymrwymiad yn ymgynghoriad 2020 i beidio â thynnu arian allan o’r Cynllun. Bydd unrhyw opsiynau y byddwn yn eu datblygu yn ceisio taro cydbwysedd rhwng cynnal cynaliadwyedd ac uniondeb y cynllun, gan sicrhau gwelliannau ar yr un pryd.

12. Mae Asesiad o’r Effaith ar gael yn **Atodiad B**. Mae hwn yn dangos bod disgwyl i’r opsiynau sy’n cael eu hystyried, sy’n cynnwys gwneud newidiadau i’r cwmpas a’r terfynau amser, arwain at gostau uwch o ran gweinyddu’r Cynllun ac ariannu iawndal o gyllid cyhoeddus. Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a fforddiadwyedd y Cynllun yn absenoldeb cyllid ychwanegol, bydd unrhyw newidiadau yn gofyn am benderfyniadau anodd ynghylch sut i wrthbwyso costau ychwanegol drwy arbedion mewn rhannau eraill o’r Cynllun. Byddwn yn ystyried hyn ar ôl i’r trydydd ymgynghoriad ddod i ben a chwblhau’r adolygiad, gan benderfynu pa ddiwygiadau o’r tri ymgynghoriad i’w rhoi ar waith.

### Datganiad cydraddoldeb

13. Mae Datganiad Cydraddoldeb ar gael yn **Atodiad A**. Mae hwn yn nodi, er y byddai opsiynau sy'n effeithio ar ddioddefwyr dan 18 oed yn unig yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o ran oedran o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb, credwn eu bod yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon a bod hynny felly'n gyfreithlon. O ran gwahaniaethu anuniongyrchol, mae'r data sydd ar gael yn awgrymu y byddai'r opsiynau yn cael yr effaith fwyaf ar y rheini sydd fwyaf tebygol o ddioddef trosedd – yn enwedig menywod, pobl iau a phobl anabl. Ein barn ni yw na fyddai'r opsiynau'n peri anfantais benodol i unrhyw grŵp. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys dau gwestiwn sy'n ceisio barn am effeithiau'r opsiynau ar gydraddoldeb – gweler **cwestiynau 13 a 14** yn yr holiadur.

# Cyflwyniad

14. Mae'r papur hwn yn nodi ar gyfer ymgynghori ar newidiadau posibl i gwmpas a therfynau amser y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol mewn ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

15. Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at bobl yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gan adlewyrchu cwmpas daearyddol y Cynllun.[3] Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan ddioddefwyr a goroeswyr; grwpiau, gwasanaethau ac elusennau dioddefwyr; academyddion; cynrychiolwyr o'r sector cyfreithiol a gweithwyr proffesiynol o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon gynnwys pawb na chau neb allan, a byddwn yn croesawu ymatebion gan bawb sydd â diddordeb yn y pwnc a drafodir yn y papur hwn, neu sydd â safbwynt yn ei gylch.

16. Mae papur ymgynghori Saesneg ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/cics-review-additional-consultation-2023

17. Mae Asesiad o'r Effaith wedi'i atodi. Mae hyn yn dangos bod y diwygiadau posibl a amlinellir yn y papur ymgynghori hwn yn debygol o effeithio'n benodol ar ddioddefwyr troseddau treisgar sydd ag euogfarnau a, lle bo hynny'n berthnasol, eu perthnasau sy'n gymwys; y rheini sy'n cynrychioli neu'n cynorthwyo ymgeiswyr gan gynnwys elusennau dioddefwyr a gwasanaethau i ddioddefwyr; yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, GLlTEM a Llywodraeth yr Alban. Byddai unrhyw newidiadau i'r rheol yn debygol o arwain at gostau ychwanegol i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol a GLlThEM.

18. Croesewir sylwadau am yr Asesiad o'r Effaith yn fawr iawn.

[3]Er bod yr Ymchwiliad wedi ymchwilio i gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr, mae'r Cynllun yn ymdrin â throseddau treisgar yn yr Alban yn ogystal â Chymru a Lloegr.

# Cefndir yr ymgynghoriad hwn

19. Mae'r Cynllun bob amser wedi canolbwyntio ar ddigolledu am **anafiadau troseddol** sy'n cael eu dioddef ac y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i fod yn ddioddefwr uniongyrchol o **drosedd treisgar**, i gymryd risg eithriadol y gellir ei chyfiawnhau i ddal troseddwr, i atal trosedd, rheoli canlyniadau trosedd neu i gynorthwyo cwnstabl, neu i fod yn bresennol mewn digwyddiad a bod yn dyst, neu yn union ar ôl digwyddiad, lle cafodd anwylyd anaf troseddol.

20. Diffinnir yr hyn sy'n gyfystyr â **throsedd treisgar** yn y Cynllun, ac mae Atodiad B y Cynllun yn disgrifio'r hyn y mae'n rhaid i drosedd o'r fath ei gynnwys, pan allai gweithred neu anweithred o natur dreisgar fod yn un, a'r hyn sy'n cael ei eithrio rhag bod yn drosedd treisgar. Os nad yw'r amgylchiadau lle cafodd person ei anafu wedi'u cynnwys yn y diffiniad o drosedd treisgar, bydd cais yn cael ei wrthod.

21. Mae'r Cynllun hefyd yn mynnu bod y rheini sy'n dymuno hawlio iawndal yn cyflwyno cais i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn dwy flynedd i ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf perthnasol. Gall yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ystyried hawliadau a wneir y tu allan i'r terfyn dwy flynedd mewn "amgylchiadau eithriadol" a lle mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn golygu na fydd yn rhaid i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol wneud ymholiadau helaeth pellach i ddatrys yr hawliad. Gwneir darpariaeth ar wahân o fewn y Cynllun cyfredol ar gyfer y rhai a oedd o dan 18 oed pan gafwyd yr anaf perthnasol.

22. Roedd y Strategaeth Dioddefwyr drawslywodraethol a gyhoeddwyd ar 10 Medi 2018 yn nodi ymateb ar draws y system cyfiawnder troseddol i wella'r gefnogaeth a gynigir i ddioddefwyr troseddau. Cydnabuwyd bod yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (yr Ymchwiliad) wedi gwneud nifer o argymhellion ar gyfer newidiadau ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr cam-drin rhywiol, gan gynnwys argymhelliad ar gyfer newidiadau i reol euogfarnau heb eu disbyddu y Cynllun.[4] Ymrwymodd y Strategaeth i adolygu'r Cynllun, gan roi ystyriaeth lawn i ganfyddiadau'r Ymchwiliad.

[4]Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, Ebrill 2018, Adroddiad Interim yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, adran 5.2. https:///www.iicsa.org.uk/publications/im/interim

23. Cafodd yr adolygiad ei gynnal, ac mae'n cael ei grynhoi yn nogfen ymgynghori Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2020[5]. Cafodd yr adolygiad ei lywio gan ddadansoddiad manwl o tua 75,000 o hawliadau a gafodd yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol rhwng 1 Ionawr 2016 a 1 Ionawr 2019. Gwnaeth yr adolygiad ystyried gwybodaeth a safbwyntiau rhanddeiliaid a phartïon a oedd â buddiant, ac ystyried yn benodol ganfyddiadau cynnar yr Ymchwiliad yn ogystal ag adroddiadau Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr, a'r Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Oedolion sydd wedi Goroesi Cam-drin Rhywiol yn ystod Plentyndod.

24. Rydym yn mabwysiadu'r egwyddorion a sefydlwyd yn ymgynghoriad 2020 (sydd hefyd yn sail i'r ymgynghoriad atodol), fel a ganlyn:
    - Mae iawndal yn gydnabyddiaeth bwysig o'r niwed a ddioddefir gan ddioddefwyr troseddau treisgar.
    - Mae iawndal yn rhan bwysig o gefnogaeth y llywodraeth i ddioddefwyr troseddau treisgar, sydd hefyd yn cynnwys gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol, a chymorth emosiynol ac ymarferol;
    - Dylid diogelu iawndal ar gyfer y rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan eu hanafiadau, gan gynnwys lle nad yw'r anafiadau hynny'n amlwg ar unwaith neu lle nad yw'n hawdd mesur eu heffeithiau;
    - Y Cynllun yw'r dewis olaf, gan gynnig iawndal i ddioddefwyr troseddau treisgar nad ydynt wedi gallu ceisio iawndal drwy ddulliau eraill; a
    - Mae angen i'r Cynllun fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn ariannol er mwyn parhau i ddarparu iawndal i ddioddefwyr troseddau treisgar.

25. Yn nogfen ymgynghori 2020, fe wnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau a'n casgliadau ar draws yr ystod eang o bynciau a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad, a nodi cynigion ar gyfer diwygio. Ar gyfer pob un o'r meysydd lle cynigiwyd newid, roedd y ddogfen yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ac yn nodi'r achos dros newid.

26. Ym mis Awst 2021, datganodd yr Uchel Lys fod telerau Strategaeth Dioddefwyr 2018 wedi creu disgwyliad dilys o ymgynghori ar ddiwygio'r rheol euogfarnau heb eu disbyddu, a bod y disgwyliad hwn heb gael ei fodloni drwy beidio â gofyn cwestiwn penodol ar y mater yn ymgynghoriad 2020. Roeddem wedi edrych o'r newydd ar y rheol fel sy'n ofynnol gan ddyfarniad yr Uchel Lys ac wedi cynnal ymgynghoriad pellach rhwng mis Mehefin a mis Awst 2022, a oedd yn ymwneud yn llwyr ag a ddylid diwygio'r rheol euogfarnau heb eu disbyddu, yn unol â'r argymhelliad a wnaed gan yr Ymchwiliad neu mewn rhyw ffordd arall.

[5] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2020, Adolygiad o'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2020, paragraffau 7 i 16. https:///www.gov.uk/government/consultations/ criminal-injuries-cheme-review-2020

27. Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd yr Ymchwiliad ei adroddiad terfynol. Yn ogystal ag ailddatgan yr argymhelliad ar euogfarnau heb eu disbyddu yn yr *Adroddiad Interim*, galwodd argymhelliad 18 ar y Llywodraeth i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin rhywiol wedi’i hwyluso ar-lein o fewn cwmpas y Cynllun, a chynyddu’r terfyn amser ar gyfer ceisiadau gan ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol.

28. Rydym nawr yn cynnal ymgynghoriad ychwanegol ynghylch a ddylid diwygio cwmpas a therfynau amser y Cynllun yn unol ag argymhellion terfynol yr Ymchwiliad neu mewn rhyw ffordd arall. Dim ond ar ôl i’r ymgynghoriad ddod i ben y bydd penderfyniad terfynol ar newidiadau cyffredinol i’r Cynllun yn cael ei wneud, a bydd yn defnyddio canfyddiadau’r adolygiad a’r dystiolaeth a gasglwyd drwy ymgynghoriadau 2020, 2022 a 2023. Bydd ymateb i bob un o’r tri ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi maes o law.

# Cwmpas y Cynllun: diwygiadau posibl

## Cwmpas a gweithredu'r cynllun

**Diffiniad o 'drosedd treisgar'**

29. Ers ei sefydlu yn 1964, pwrpas y Cynllun oedd darparu iawndal i ddioddefwyr sydd wedi dioddef anaf corfforol a/neu feddyliol o ganlyniad uniongyrchol i drosedd treisgar. Ailadroddwyd y ffocws hwn ar droseddau treisgar yn 1995 yn ystod dadleuon ar y Mesur Digolledu am Anafiadau Troseddol a osododd y Cynllun ar sail statudol.[6]

30. Mae paragraffau 4–6 Cynllun 2012 yn nodi tri chategori y gallai person fod yn gymwys i gael dyfarniad oddi tanynt:
    - dioddef anaf troseddol y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i fod yn ddioddefwr uniongyrchol o drosedd treisgar
    - cael anaf troseddol sydd wedi'i briodoli'n uniongyrchol i gymryd risg eithriadol a chyfiawn i ddal troseddwr, atal trosedd, rheoli canlyniadau trosedd neu gynorthwyo cwnstabl, a
    - chael anaf o ganlyniad i fod yn bresennol mewn digwyddiad ac yn dyst iddo, neu yn syth ar ôl digwyddiad, lle cafodd anwylyd anaf troseddol.

31. Mae paragraff 4 y Cynllun yn darparu y gall person "fod yn gymwys i gael dyfarniad o dan y Cynllun hwn os oes ganddo anaf troseddol y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r ffaith ei fod yn ddioddefwr uniongyrchol o drosedd treisgar a gyflawnwyd mewn man perthnasol". Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn golygu bod y troseddwr a'r dioddefwr yn bresennol gyda'i gilydd pan fydd cyswllt rhyngddynt sy'n achosi anaf neu fygythiad uniongyrchol o drais. Eglurir ystyr "trosedd treisgar" yn Atodiad B ac fe'i disgrifir fel trosedd sy'n cynnwys:
    - ymosodiad corfforol;
    - unrhyw weithred neu anweithred arall o natur dreisgar sy'n achosi niwed corfforol i berson;
    - bygythiad yn erbyn person, gan achosi ofn trais ar unwaith mewn amgylchiadau a fyddai'n achosi i berson o gadernid rhesymol deimlo ofn o'r fath;
    - ymosodiad rhywiol nad oedd person wedi cydsynio iddo mewn gwirionedd; neu
    - llosgi bwriadol neu gynnau tân.[7]

---

[6] Hansard (1995, Mai 23). *Criminal Injuries Compensation Bill* [Hansard]. (Vol. 260). https://hansard.parliament.uk/Commons/1995-05-23/debates/9262cbcb-d058-4ced-bb69-692a152c7852/CriminalInjuriesCompensationBill

[7] Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 (diwygiwyd), Para 4 ac Atodiad B.

32. Dim ond os yw'r anaf yn cael ei ddioddef yn yr amgylchiadau hyn a bod rhaid i'r weithred neu'r anweithred fod wedi'i chyflawni'n fwriadol neu'n fyrbwyll y mae person yn gymwys i gael iawndal o dan y Cynllun.


33. Mae'r diffiniad yn darparu i rai troseddau digyswllt fod yn droseddau treisgar lle y gwnaed bygythiad a oedd yn peri i berson ofni trais ar unwaith. Yn yr ymgynghoriad *Getting it right for victims and witnesses* a ragflaenodd Cynllun 2012 nodwyd: 'Mae bygythiad o ymosodiad yn gallu bod yn drosedd treisgar os yw'n gwneud i berson rhesymol deimlo ofn o ymosodiad corfforol uniongyrchol, ac roedd y dioddefwr mewn gwirionedd yn ofni hynny. Ni fydd trosedd a gyflawnir o bell (e.e. aflonyddu dros y ffôn neu'n electronig) fel arfer yn drosedd treisgar, oni bai fod bygythiadau uniongyrchol sy'n peri i'r derbynnydd ofni niwed corfforol uniongyrchol.'[8]

## Gweithredu'r Cynllun

34. Roedd dadansoddiad o ddata CICA ar gyfer ymgynghoriad 2022/23 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r achosion, 51%, yn ymwneud ag anafiadau a gafwyd o ymosodiad gydag arf neu heb arf. Roedd anafiadau rhywiol yn cyfrif am 28% o'r achosion, roedd 9% arall ar gyfer trais domestig a theulu, 6% ar gyfer mathau anhysbys o ddigwyddiadau, 4% ar gyfer marwolaethau a 2% ar gyfer ffynonellau eraill o anafiadau.


[8] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Ionawr 2012, Getting it right for victims and witnesses, para 179. https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/victims-witnesses/

**Hawliadau yn ôl math o drosedd**




35. O ran yr anafiadau a achoswyd gan y troseddau hyn, mae data CICA yn dangos yn 2022–23 bod £32,066,565 wedi cael ei dalu am anafiadau corfforol, £66,557,505 am anafiadau cysylltiedig ag ymosodiadau rhywiol a £13,653,25 am anafiadau meddyliol.

**Taliadau'r cynllun yn ôl math o anaf, 2022–23**




36. O ran sut mae'r diffiniad o drosedd treisgar yn effeithio ar geisiadau, roedd data CICA o 2020-2022 yn dangos mai'r prif reswm mewn 15% o'r holl achosion a wrthodwyd oedd 'tystiolaeth annigonol bod trosedd treisgar wedi digwydd'; sef y trydydd prif reswm mwyaf cyffredin dros wrthod ar ôl 'Niwed allan o dariff' (24%) a

'Heb gymryd pob cam rhesymol i helpu'r swyddog i asesu'r hawliad' (18%), wedi'i ddilyn gan 'Ddim yn cydweithredu'n llawn â'r heddlu' (10%) a 'Cais wedi ei gyflwyno eisoes i'r cynllun' (8%).

37. O ran mathau o geisiadau a wrthodwyd, roedd 'Aflonydd Rhywiol' wedi disodli 'Ymosodiad' fel y math mwyaf cyffredin o ddigwyddiad a wrthodwyd gan CICA oherwydd 'tystiolaeth annigonol bod trosedd treisgar wedi digwydd' rhwng 2019 a 2020 a dyma'r math mwyaf cyffredin o drosedd a wrthodwyd drwy gydol 2022. Cynyddodd nifer yr achosion a wrthodwyd o 598 yn 2020 i 1001 yn 2022, fel rhan o gynnydd cyffredinol mewn ceisiadau i'r Cynllun yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

38. Mae data troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn dangos tueddiadau tebyg dros y tair blynedd diwethaf (2020–22) fel yn y pum mlynedd o ddata a ystyriwyd yn ymgynghoriad 2020 (2013/14–2018/19).[9] Bu cynnydd mewn troseddau rhywiol a thrais rhywiol a gofnodwyd – er bod pob un o'r troseddau hyn eisoes o fewn cwmpas y Cynllun – tra bo dynladdiad, marwolaeth neu anaf difrifol drwy yrru'n anghyfreithlon, a thrais gydag anaf wedi aros ar lefelau gweddol debyg dros y pum mlynedd diwethaf. Bu cynnydd mewn trais heb anaf, yn enwedig ystelcio ac aflonyddu – nad ydynt yn gyfystyr â throseddau treisgar dan y Cynllun fel y cyfryw.

39. Fel yn ymgynghoriad 2020, credir bod cynnydd mewn mathau penodol o droseddau yn arwydd o nifer o ffactorau ar wahân i gynnydd gwirioneddol mewn troseddu. Er bod troseddau rhywiol a riportiwyd ar eu lefel uchaf erioed, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn nodi y gallai'r ffigurau diweddaraf adlewyrchu nifer o ffactorau, gan gynnwys effaith digwyddiadau proffil uchel, sylw yn y cyfryngau, ac ymgyrchoedd ar barodrwydd pobl i roi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau, yn ogystal â chynnydd posibl yn nifer y dioddefwyr.'[10] Yn yr un modd, er mai ystelcio ac aflonyddu oedd i gyfrif am y cynnydd mwyaf mewn unrhyw gategori o drosedd, credir bod hyn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan newidiadau sylweddol yn arferion cofnodi'r heddlu.

40. Mae rhywfaint o dystiolaeth o gynnydd mewn troseddau meithrin perthynas amhriodol ar-lein. Dangosodd data a gasglwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) gan 41 o heddluoedd y DU gynnydd o 84% ers 2017/18, gan godi'r cyfanswm i fwy na 27,000 o droseddau ers 2017. Yn 2021/22,

---

[9] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), a ryddhawyd ar 26 Ionawr 2023, gwefan ONS, Crime in England and Wales: Appendix Tables, Year ending September 2022, table A4.
https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/crimeinenglandandwalesappendixtables

[10] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), a ryddhawyd ar 27 Hydref 2022, gwefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, bwletin ystadegol, Crime in England and Wales, blwyddyn yn dod i ben ym Mehefin 2022. https:////www.ons.gov.uk/ populationandcrime/bury inenglandandwales/ffeneringjune2022/domestic-abuse-and-sexual-offences

roedd 6,156 o droseddau cyfathrebu rhywiol â phlentyn, cynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.[11] Yn 2022, cadarnhaodd yr Internet Watch Foundation (IWF) fod 255,571 o dudalennau gwe yn cynnwys, yn cysylltu neu'n hysbysebu delweddau o gam-drin plant yn rhywiol, gydag 199,363 neu 78% o'r rhain yn cael eu hasesu fel rhai sy'n cynnwys delweddau a 'hunan-gynhyrchwyd'.[12] Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 6% yn 2021, neu gynnydd o 9% mewn termau cyffredinol. Nododd yr IWF 'Mewn rhai achosion, mae plant yn cael eu hudo, eu twyllo neu eu gorfodi i gynhyrchu a rhannu delwedd rywiol neu fideos ohonynt eu hunain gan rywun nad yw'n bresennol yn yr ystafell gyda'r plentyn.'

**Galwadau i ymestyn cwmpas y Cynllun**

41. Nododd ymgynghoriad 2020:

> Rydym wedi clywed pryderon gan randdeiliaid nad yw'n darparu ar gyfer troseddau digyswllt difrifol sydd wedi cynyddu o ran niferoedd, fel meithrin perthynas amhriodol, camfanteisio ar-lein, rheolaeth drwy orfodaeth, ystelcio, a chaethwasiaeth fodern. Mewn achosion o'r fath, dadleuir, er na fu unrhyw ddifrod corfforol o bosibl a dim bygythiad uniongyrchol o drais, y gallai'r effaith seicolegol fod yn gymesur â'r math o anafiadau meddyliol a gaiff eu digolledu drwy'r Cynllun. Yn ei drydydd adroddiad, galwodd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Oedolion sydd wedi Goroesi Cam-drin Rhywiol yn ystod Plentyndod am ehangu cwmpas y Cynllun i gynnwys mathau o gam-drin digyswllt ac ar-lein.[13] Nododd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn ei adroddiad ar y Rhyngrwyd y dylid ystyried y ffaith bod cam-drin a hwylusir ar-lein yn aml yn nodwedd o droseddu rhywiol yn erbyn plant.[14]

42. Er nad oedd gan ymgynghoriad 2020 gynnig (na chwestiwn) mewn perthynas â chwmpas a diffiniad trosedd treisgar, cyfeiriodd 27% o'r ymatebwyr at gwmpas y Cynllun yn eu hymateb i Gwestiwn 17 a oedd yn gofyn, "Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar y Cynllun?". Roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau y dylid cynnwys rhai troseddau penodol yn y cwmpas ar gyfer iawndal.

43. O'r ymatebwyr hynny a gododd y mater, roedd y rhan fwyaf yn galw am gynnwys troseddau digyswllt fel ystelcio, camfanteisio ar-lein, meithrin perthynas amhriodol, gorfodaeth a chaethwasiaeth fodern/masnachu yn y Cynllun. Roeddent yn cyfeirio at

---

11 NSPCC, Gorffennaf 2022, https://www.nspcc.org.uk/about-us/news-opinion/2022/online-grooming-crimes-rise/

12 Internet Watch Foundation, a gyhoeddwyd ar 27 Ebrill 2023, IWF Annual Report 2022. https://annualreport2022.iwf.org.uk/trends-and-data/self-generated-csam/#

13 APPG Adult Survivors of Child Sexual Abuse, Chwefror 2020, Can Adult Survivors of Child Sexual Abuse Access Justice and Support? Chwefror 2020 - https:///www.appgsurvivorscsa.co.uk/infosupportsurvivors

14 Independent Inquiry into Child Sexual Abuse, Cyhoeddwyd 12 Mawrth 2020, The Internet Investigation Report. https://www.iicsa.org.uk/reports-recommendations/publications/investigation/internet.html

gynnydd mewn troseddu digyswllt ar-lein, newidiadau mewn patrymau troseddu a chyfatebiaeth yr effaith ar ddioddefwyr i effaith troseddau corfforol.

44. Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd yr Ymchwiliad ei adroddiad terfynol, a oedd yn cynnwys argymhelliad i ymestyn cwmpas y Cynllun:

“Bod llywodraeth y DU yn diwygio'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (y Cynllun) i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein.”

45. Nododd yr Ymchwiliad fod dyfarniad llys yn 2022 wedi penderfynu nad yw ‘trosedd treisgar’ yn cynnwys meithrin perthynas amhriodol ar-lein lle na ofnir “trais anghyfreithlon ac ar unwaith”.[15] Mynegodd farn fod y ffocws ar droseddau sy'n ymwneud â thrais, a'r hyn a ragwelwyd pan sefydlwyd y Cynllun cyntaf yn 1964, wedi dyddio ac y dylai'r Cynllun adlewyrchu natur y troseddau sy'n cael eu cyflawni heddiw.

46. Roedd yr Ymchwiliad hefyd o'r farn nad yw'r Cynllun yn ystyried y gall cam-drin plant yn rhywiol ddigwydd heb gyswllt corfforol e.e. ar-lein, ac nad yw'n ystyried ei niwed, gan gynnwys ofn ynghylch delweddau o gam-drin rhywiol ar-lein. Yn yr un dyfarniad llys yn 2022 dywedodd y llys: “Gall ymddygiad troseddol ar-lein neu drwy negeseuon testun gael effaith ddinistriol ar fywydau'r rhai yr effeithir arnynt, yn ystod ac ar ôl y digwyddiadau eu hunain. Rhaid i bawb gondemnio'r ymddygiad hwn; fodd bynnag, mater i'r Senedd ac nid i'r Llysoedd yw ei gynnwys yn y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol.”

47. Yn ei adroddiad terfynol, ailadroddodd yr Ymchwiliad ddatganiad yn ei Adroddiad Ymchwilio i'r Rhyngrwyd ym mis Mawrth 2020 y dylai'r Cynllun fod yn addas ar gyfer oes y rhyngrwyd a'r ffaith bod cam-drin sy'n cael ei hwyluso ar-lein yn aml yn nodwedd o droseddu rhywiol yn erbyn plant.[16] Dywedodd fod cynnydd sylweddol wedi bod mewn cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein, ac mai'r Cynllun, i rai dioddefwyr, yw'r unig lwybr i gael iawndal.

## Opsiynau posibl ar gyfer diwygio

48. Yn ymgynghoriad 2020, wrth egluro ein penderfyniad i beidio â chynnig unrhyw newidiadau i gwmpas y Cynllun, ein rhesymeg oedd na fu newid sylweddol yn natur troseddau treisgar. Fel y nodwyd ym mharagraffau 36–39, mae'r darlun wedi aros yn

[15] CICA v FTT a RC (CIC); RN v FTT a CICA (CIC) [2022] UKUT 103 (AAC) UA-2019-001594-CIC___UA-2020-000600_CIC.pdf (publishing.service.gov.uk)

[16] Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, 2020, Rhan F.4 para 40

weddol debyg yn y blynyddoedd ers hynny, gyda dim ond ychydig o gynnydd mewn troseddau di-drais.

49. Er nad yw’n ymddangos bod y dystiolaeth a ddisgrifir uchod yn dangos newid mawr ym mhroffil troseddau treisgar, rydym yn cydnabod cryfder y teimlad gan y rhai sy’n cefnogi ac yn cynrychioli dioddefwyr a’r pwysau sy’n gysylltiedig ag argymhelliad yr Ymchwiliad, mewn perthynas â phwy ddylai fod yn gymwys i gael iawndal am anafiadau troseddol. Rydym wedi ystyried yn ofalus y galwadau am ddiwygio, yn ogystal â meddwl sut y gellid cysoni unrhyw ddiwygiad â phwrpas ac egwyddorion y Cynllun ac osgoi creu hierarchaeth o ddioddefwyr. Dyma’r ddau opsiwn rydym wedi’u nodi ac yn eu trafod isod:
    - Diwygio’r diffiniad o ‘drosedd treisgar’ i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin rhywiol wedi’i hwyluso ar-lein, fel yr argymhellwyd gan yr Ymchwiliad.
    - Diwygio’r meini prawf cymhwysedd i ychwanegu cymal ychwanegol i ddod â throseddau digyswllt ag effaith gyfatebol o fewn y cwmpas.

50. Yn yr Asesiad o’r Effaith a gyhoeddwyd gyda’r ymgynghoriad hwn, rydym wedi asesu effaith dim newid a’r ddau ddull o ymestyn cwmpas y Cynllun. Yn ogystal â’r drafodaeth sy’n dilyn, rydym yn gwahodd safbwyntiau ar bob ffordd o ddiwygio a sut y gellid gweithredu’r diwygiadau.

**Dim newid i gwmpas y Cynllun**

51. Mae cwmpas presennol y Cynllun yn adlewyrchu ei nod: cydnabod, drwy iawndal, y niwed a ddioddefir gan ddioddefwyr cymwys a anafwyd o ganlyniad i droseddau treisgar. Mae’r diffiniad presennol o drosedd treisgar yn caniatáu i’r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol asesu ceisiadau mewn modd amserol a chymesur, ac yn sicrhau bod adnoddau’r Cynllun yn cael eu cyfeirio at ddigolledu’r dioddefwyr sydd wedi’u hanafu'n fwyaf difrifol. Fel y nodwyd yn adroddiad terfynol yr Ymchwiliad (gweler paragraff 45), mae’r llysoedd wedi cadarnhau’r diffiniad hwn o ‘drosedd treisgar’.

52. Daethom i’r casgliad yn flaenorol na fu newid sylweddol yn natur troseddau treisgar, ac y byddai ehangu’r diffiniad y tu hwnt i droseddau treisgar eu natur ac sy’n cynnwys cyffwrdd a chyswllt corfforol neu fygythiad o drais ar unwaith, yn golygu mynd ymhell y tu hwnt i fwriad gwreiddiol y Cynllun. Rydyn ni’n dal o’r farn bod y diffiniad presennol eisoes yn cynnwys amrywiaeth eang o amgylchiadau, gan gynnwys lle roedd troseddau digyswllt fel meithrin perthynas amhriodol a ystelcio wedi esgoli i fod yn rhai sy’n cynnwys trais neu fygythiadau o drais ar unwaith.

53. Mae risg o wahaniaethu’n fympwyol rhwng mathau o droseddau a’r ffaith y byddai newidiadau i’r diffiniad mewn perygl o wneud y Cynllun yn anymarferol ac yn

anfforddiadwy yn weithredol, ac na fyddai'n adlewyrchu dealltwriaeth ehangach y cyhoedd o'r hyn yw trosedd treisgar.

54. Yn olaf, efallai nad argaeledd iawndal drwy'r Cynllun yw'r ffordd orau o gefnogi adferiad dioddefwyr. O dan y tariff anafiadau, yr unig daliad sydd ar gael ar gyfer anaf nad yw'n gorfforol neu'n ymosodiad rhywiol fyddai ar gyfer anaf meddyliol sy'n anablu. Yn unol â'r egwyddor i ddigolledu'r rhai a anafwyd fwyaf gan droseddau treisgar, mae'r trothwy cymhwysedd yn gymharol uchel ar gyfer taliadau ar sail difrifoldeb yr anaf a achoswyd yn uniongyrchol gan y trosedd a ddioddefwyd gan y person (y mae'n rhaid iddo fod yn anaf meddyliol sy'n anablu wedi'i ddiagnosio gan seiciatrydd neu seicolegydd clinigol) a'i hyd. Yn yr un modd, mae gwerth y dyfarniad yn gysylltiedig â difrifoldeb a hyd yr anaf. Yn 2020, fe wnaethom nodi mai dim ond un ffordd y gall cymdeithas gydnabod y niwed y mae dioddefwyr wedi'i ddioddef a'u helpu i wella, a bod y Llywodraeth yn ariannu mathau eraill o gymorth hirdymor, arbenigol, wedi'i deilwra a allai fod yn ffordd well o helpu dioddefwyr mathau eraill o droseddau ac a allai wneud hynny mewn ffordd fwy amserol a hygyrch.

55. Gan fod y cyfiawnhad dros y cwmpas presennol a'r pryderon ynghylch ymestyn y diffiniad yn parhau, a bod tueddiadau yn y data troseddu yn debyg i'r rhai a welwyd adeg ymgynghoriad 2020, mae cadw cwmpas presennol y cynllun yn opsiwn dilys.

**Cwestiwn 1:** Beth yw eich barn am gwmpas y Cynllun heb ei newid?

**Diwygio'r diffiniad o 'drosedd treisgar' i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein, fel yr argymhellwyd gan yr Ymchwiliad.**

56. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu diwygio Atodiad B y Cynllun i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol yn ddigyswllt, gan gynnwys cam-drin rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein fel meithrin perthynas amhriodol a throseddau delweddau, fel yr argymhellwyd gan yr Ymchwiliad. Hwn fyddai'r unig newid fyddai'n cael ei wneud i gwmpas y Cynllun, gan ganolbwyntio'n llwyr ar y garfan o ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol digyswllt a nodwyd gan yr Ymchwiliad.

57. Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddodd y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Oedolion sydd wedi Goroesi Cam-drin yn Rhywiol yn ystod Plentyndod ei adroddiad terfynol. Roedd hyn yn argymell bod y Llywodraeth yn 'Ehangu'r diffiniad o drosedd treisgar, a thrwy hynny gymhwysedd ar gyfer y Cynllun, i gynnwys mathau digyswllt o gam-drin plant yn rhywiol'. Deilliodd sylw cychwynnol yr Ymchwiliad ar y pwnc o adroddiad ymchwiliad *The Internet*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020 tra oedd yr adolygiad o'r Cynllun yn mynd rhagddo, a dywedodd: 'Mae angen i'r llywodraeth sicrhau bod y Cynllun CICA yn addas ar gyfer oes rhyngrwyd ac yn ystyried y ffaith bod cam-drin

sy'n cael ei hwyluso ar-lein yn aml yn nodwedd o droseddu rhywiol yn erbyn plant.' Ategwyd hyn hefyd mewn rhai ymatebion i ymgynghoriad 2020.

58. Roedd argymhelliad yr Ymchwiliad, o'i adroddiad terfynol ym mis Hydref 2022, yn debyg i argymhelliad APPG, y dylai'r Llywodraeth ddiwygio'r Cynllun 'i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein.'

59. Mae'r Adran Addysg yn diffinio cam-drin plant yn rhywiol fel 'Mae cam-drin plant yn rhywiol yn golygu gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio.'[17] Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys cam-drin drwy weithredoedd treiddiol neu anhreiddiol, sydd o fewn cwmpas y Cynllun ac mae taliadau wedi'u nodi yn Rhan B y tariff anafiadau. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys gweithgareddau digyswllt, fel cynnwys plant wrth edrych ar, neu gynhyrchu, delweddau rhywiol, gwylio gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol, neu hudo plentyn i baratoi ar gyfer cael ei gam-drin, gan gynnwys drwy'r rhyngrwyd. Nid yw gweithgareddau digyswllt fel meithrin perthynas amhriodol a chamfanteisio gorfodol a thringar eraill ynddynt eu hunain yn dod o fewn cwmpas iawndal, oni bai eu bod yn cynnwys bygythiad a fyddai'n achosi i unigolyn rhesymol ofni trais ar unwaith. Fodd bynnag, maent yn ffactorau y bydd yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn eu hystyried wrth benderfynu a roddwyd cydsyniad yn rhydd ac yn wirfoddol mewn gwirionedd mewn achosion o ymosodiadau rhywiol.

60. Er ein bod yn cydnabod yn llwyr pa mor ddifrifol yw'r troseddau hyn, byddai cymhwyso dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol yn ddigyswllt i gael iawndal drwy'r Cynllun yn newid ei bwrpas, sydd wedi hen ennill ei blwyf, i ddigolledu dioddefwyr trais.

61. Byddai ymestyn i gynnwys cam-drin plant yn rhywiol yn ddigyswllt hefyd yn arwain at oblygiadau o ran gweinyddu'r Cynllun, oherwydd yr anawsterau o ran tystiolaeth a gyflwynir gan y mathau hyn o droseddau a nifer y ceisiadau ychwanegol. Anafiadau meddyliol sy'n anabl yw'r unig daliad a fyddai ar gael, ond mae'n feichus a thrawmatig i ymgeiswyr, ac ymysg y mathau anoddaf a mwyaf llafurus o daliadau i CICA eu gweinyddu, oherwydd yr angen am adroddiadau arbenigol i dystiolaethu am yr anaf, y mae CICA yn talu amdano am gost sydd eisoes yn fwy na £1m y flwyddyn.

62. Byddai nifer y troseddau hefyd yn effeithio ar fforddiadwyedd y Cynllun, er bod y trothwy cymharol uchel ar gyfer profi anafiadau meddyliol sy'n anablu yn golygu efallai na fydd dioddefwyr unigol yn fodlon â'r iawndal y gallant ei hawlio. O ystyried

[17] Yr Adran Addysg, Gorffennaf 2022, Working Together to Safeguard Children. http://www.gov.uk/government/publications/working-together-to-guard-children--2

yr uchod, mae'n ymddangos bod y gwasanaethau cymorth eraill a ariennir gan y Llywodraeth mewn sefyllfa well i helpu'r grŵp hwn o ddioddefwyr i oresgyn yr anaf meddyliol y maent wedi'i ddioddef. Mae ymateb y Llywodraeth i adroddiad yr Ymchwiliad yn tynnu sylw at y cyllid ychwanegol sydd ar gael i gefnogi goroeswyr, yn ogystal â chynnwys dyletswydd ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol a Byrddau Gofal Integredig yn Lloegr i gydweithio wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin rhywiol.

**Cwestiwn 2:** Beth yw eich barn am ddiwygio'r diffiniad o drosedd treisgar i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol?

**Cwestiwn 3:** Os ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn y diffiniad fel hyn, pa fathau digyswllt o gam-drin plant yn rhywiol y dylid eu cynnwys yng nghwmpas y Cynllun?

**Diwygio'r meini prawf cymhwysedd i ychwanegu cymal ychwanegol i ddod â throseddau digyswllt ag effaith gyfatebol o fewn y cwmpas.**

63. Byddai'r opsiwn hwn yn ychwanegu categori newydd o droseddau digyswllt at dri chategori cymhwysedd presennol y Cynllun (h.y. bod yn ddioddefwr uniongyrchol o drosedd neu drais; ii. cael anaf y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i gymryd risg eithriadol a chyfiawn i atal neu liniaru trosedd, cynorthwyo cwnstabl, neu ddal troseddwr; neu iii. bod yn dyst i anwylyd yn cael anaf troseddol).

64. Byddai hyn yn cyflawni ac yn mynd ymhellach nag argymhelliad yr Ymchwiliad, ond yn osgoi amwysedd wrth ddiffinio'r garfan o ddioddefwyr yr effeithir arnynt drwy gynnwys grŵp mwy cydlynol o droseddau digyswllt tebyg o fewn y cwmpas. Drwy greu categori cymhwyster newydd ehangach, byddai hefyd yn adlewyrchu'n well y newid sylweddol i ddiben y Cynllun a fyddai'n deillio o weithredu argymhelliad yr Ymchwiliad.

65. Aeth nifer o ymatebwyr i ymgynghoriad 2020 a wnaeth sylwadau ar y maes hwn yn y Cynllun, drwy Gwestiwn 17, ymhellach na'r Ymchwiliad yn eu galwadau i ymestyn cwmpas y Cynllun, gydag awgrymiadau i gynnwys amrywiaeth o droseddau digyswllt eraill sy'n cael effaith seicolegol ddifrifol, fel rheolaeth orfodol, cam-drin rhywiol ar sail delweddau ('pornograffi dial') ac ystelcio.

66. Byddai ymestyn cwmpas y Cynllun ar hyd y llinellau hyn o bosibl yn osgoi creu hierarchaeth o ddioddefwyr a allai gael ei achosi drwy gynnwys grŵp penodol yn y cwmpas heb sail polisi gref dros wahaniaethu rhwng y grŵp hwnnw a dioddefwyr troseddau digyswllt eraill. Byddai ychwanegu categori cymhwysedd newydd ar gyfer troseddau digyswllt hefyd yn fwy cydlynol na cheisio plygu is-set o droseddu digyswllt i'r diffiniad o drosedd treisgar yn Atodiad B y Cynllun. Gallai'r dull hwn hefyd helpu i gadw cyffredinolrwydd y Cynllun gan na fyddai unrhyw wahaniaeth yn seiliedig ar

oedran y dioddefwr adeg digwyddiad, ar yr amod bod categori cydlynol o droseddu digyswllt sy'n cael ei ystyried yn ofalus, ac sy'n cael effaith seicolegol debyg, yn cael ei gynnwys yn y cwmpas. Am y rheswm hwn, rydym yn awyddus i geisio barn ymatebwyr ynghylch pa droseddau y gellid eu cynnwys.

67. Fodd bynnag, byddai'r dull hwn yn dal yn newid sylfaenol i natur y Cynllun, gan y byddai cynnwys troseddau nad ydynt yn dreisgar eu natur neu nad ydynt yn cynnwys cyffwrdd a chyswllt corfforol neu fygythiad o drais ar unwaith yn mynd ymhell y tu hwnt i'w fwriad gwreiddiol. Byddai ganddo fwy fyth o siawns o wneud y Cynllun yn anfforddiadwy, o ystyried yr ystod ehangach o droseddu sy'n dod o dan y cwmpas a chyfraddau adrodd uchel yr heddlu, a byddai angen i ymgeiswyr ddangos anaf meddyliol sy'n anablu a chyrraedd y trothwy er mwyn cael taliad, gan gyfyngu ar eu gallu i hawlio iawndal drwy'r llwybr hwn. Byddai hefyd yn cynyddu baich gweinyddol a chost yr hawliadau hyn ar yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (fel y nodir ym mharagraff 61). Yn yr un modd â'r opsiwn blaenorol, efallai y bydd y grŵp hwn o ddioddefwyr yn dal i gael ei wasanaethu'n well drwy geisio cymorth drwy wasanaethau eraill sy'n cael eu hariannu gan y llywodraeth.

**Cwestiwn 4:** Beth yw eich barn am ddod â throseddu digyswllt difrifol o fewn cwmpas y Cynllun?

**Cwestiwn 5:** Pa fathau o droseddu digyswllt y dylid eu cynnwys yn y Cynllun?

# Ymestyn terfynau amser y Cynllun: diwygiadau posibl

## Cyfyngiadau amser a'u gweithredu

**Y Sefyllfa Bresennol**

68. Rhaid i ddioddefwyr sy'n ceisio iawndal drwy'r Cynllun wneud cais cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn dwy flynedd i ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf perthnasol.[18]

69. Pwrpas y terfyn amser hwn yw sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth i fwrw ymlaen â'u hadferiad, bod yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn gallu casglu digon o dystiolaeth i benderfynu ar hawliadau digolledu, ac i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y Cynllun. Mae'r terfyn amser o ddwy flynedd wedi'i bennu ers 1996, ar ôl bod yn dair blynedd dan rai o'r cynlluniau anneddfwriaethol oedd yn bodoli o 1964 ymlaen, ac mae'n cyd-fynd yn fras â chynlluniau iawndal rhyngwladol eraill.

70. Pan fo'r ymgeisydd o dan 18 oed ar ddyddiad yr anaf a arweiniodd at y cais, rhaid i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol dderbyn y cais ar eu pen-blwydd yn 20 oed neu cyn hynny, lle cafodd yr heddlu wybod am y digwyddiad am y tro cyntaf cyn eu pen-blwydd yn 18 oed, <u>neu</u> o fewn 2 flynedd ar ôl y dyddiad yr hysbyswyd yr heddlu am y digwyddiad am y tro cyntaf pan gafodd ei riportio ar eu pen-blwydd yn 18 oed neu ar ôl hynny.[19]

71. Ym mhob achos, gellir parhau i ystyried hawliadau a wneir y tu allan i'r terfyn perthnasol lle mae "amgylchiadau eithriadol" yn golygu na ellid bod wedi gwneud cais yn gynharach a lle mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn golygu na fydd yn rhaid i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol wneud ymholiadau helaeth pellach i ddatrys yr hawliad.

72. Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn ymwybodol bod amgylchiadau eithriadol yn arbennig o debygol o gael eu cynnwys mewn achosion cam-drin rhywiol (gweler paragraffau 75, 86 isod) ac mae'n rhoi hyfforddiant i'w staff i'w helpu i ddeall effaith y trawma seicolegol ac emosiynol mewn achosion o'r fath, yn ogystal â chanllawiau ar berthnasedd 'amgylchiadau eithriadol' i achosion cam-drin rhywiol – yn enwedig cam-drin plant yn rhywiol. Mae'r canllawiau hyn yn datgan:

[18]Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 (diwygiwyd), Para 87.

[19]Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 (diwygiwyd), Para 88.

Mae amgylchiadau eithriadol yn fwy tebygol o fodoli mewn achosion sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol, yn enwedig lle'r oedd yr ymgeisydd yn blentyn adeg y trosedd. Y rheswm am hyn yw bod tawelwch y dioddefwr, a thrawma seicolegol ac emosiynol parhaus, yn amlwg yn ganlyniadau uniongyrchol i droseddau o'r fath. Mae'r effeithiau hyn yn parhau pan fyddant yn oedolion.

Ar ben hynny, bydd y broses o gynnal ymchwiliad troseddol a threial mewn achosion o'r fath yn aml yn cynyddu effaith seicolegol y troseddau. Am y rhesymau hyn, pan fyddwch yn delio ag achos sy'n ymwneud â cham-drin rhywiol lle nad oedd yr ymgeisydd wedi gwneud cais tan i'r achos troseddol ddod i ben, dylech dderbyn bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli oni bai eich bod o'r farn bod rhesymau cryf dros beidio â gwneud hynny.

73. Mae'r dystiolaeth y mae'n rhaid i ddioddefwyr ei darparu yn dibynnu ar yr achos ac nid yw'n cael ei phennu gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol, y tu hwnt i dystiolaeth feddygol sy'n dangos eu bod wedi dioddef anaf y gellir ei digolledu o dan y Cynllun. Os nad yw'r dystiolaeth a ddarparwyd yn ddigon i'r asesydd benderfynu ar yr hawliad, rhaid iddo ei wrthod oni bai ei fod yn fodlon na fydd unrhyw ymholiadau pellach sy'n angenrheidiol i benderfynu ar y cais yn rhai helaeth. Mae'r dyfarniad hwn yn seiliedig ar nifer yr ymholiadau sydd eu hangen, hyd, cost a chymhlethdod yr ymholiadau hynny, yr amser ers y digwyddiad ac a fu treial troseddol (gan fod hyn yn golygu bod y dystiolaeth yn debygol o fod yn fwy hygyrch, hyd yn oed flynyddoedd yn ddiweddarach).

74. O dan baragraff 98 y Cynllun, gall y swyddog hawliadau ohirio penderfynu ar y cais tan ddiwedd unrhyw achos troseddol sy'n ymwneud â'r digwyddiad mewn achosion eithriadol a lle mae'r canlyniad yn debygol o fod yn berthnasol i'r penderfyniad, neu hyd nes y bydd wedi'i fodloni bod yr ymgeisydd wedi cymryd pob cam rhesymol i gael iawndal neu daliadau yswiriant drwy lwybrau eraill.

### Gweithredu'r Cynllun

75. Mae data'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol o 2020-2022 yn dangos bod 18% o geisiadau am anafiadau personol wedi cael eu cyflwyno y tu allan i'r terfyn amser o ddwy flynedd, ac o'r rhain aeth 61% ymlaen i gael dyfarniad. O'r ceisiadau hynny a gyflwynwyd y tu allan i'r terfyn amser o ddwy flynedd, roedd 69% yn geisiadau am ymosodiadau rhywiol a chafodd 74% o'r rhain ddyfarniadau. Mae hyn yn dangos nad yw'r cyfyngiadau amser presennol yn dal i gael unrhyw effaith anghymesur ar y rheini sy'n hawlio am ymosodiad rhywiol ac mae'n awgrymu bod y meini prawf 'amgylchiadau eithriadol' ar gyfer derbyn hawliad y tu allan i'r terfyn amser dwy flynedd yn dal i weithio'n dda.

### Galwadau am ddiwygio

76. Roedd adroddiad mis Medi 2019 yr Ymchwiliad ar Atebolrwydd a Gwneud Iawn yn nodi pryderon dioddefwyr a goroeswyr y byddent yn mynd y tu hwnt i'r terfyn amser

oherwydd eu bod yn teimlo nad oeddent yn gallu rhoi gwybod am eu camdriniaeth pan oeddent yn blant. Nododd hefyd y gallent fod yn hwyr yn gwneud ceisiadau am nad oedd yr heddlu wedi rhoi gwybod iddynt am eu hawl i gael iawndal drwy'r Cynllun tra oedd yr ymchwiliad neu'r treial yn mynd rhagddo, ac y gallai'r ofn o fod 'yn rhy hwyr' eu hatal rhag gwneud cais o gwbl. Ar ben hynny, roedd seminar gan yr Ymchwiliad yn trafod yr anhawster y mae dioddefwyr yn ei gael o ran dangos 'amgylchiadau eithriadol' heb gyngor cyfreithiol. Yn ystod y sesiynau tystiolaeth ar gyfer yr elfen hon o'r Ymchwiliad, tynnodd Prif Weithredwr yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol sylw at yr hyfforddiant a roddwyd i staff ar gyfer delio ag achosion hanesyddol o gam-drin plant yn rhywiol, a'r disgresiwn y gallai'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ei ddefnyddio mewn amgylchiadau eithriadol. Nid oedd yr adroddiad hwn, nac adroddiad interim yr Ymchwiliad, yn gwneud unrhyw argymhellion mewn perthynas â therfynau amser.

77. Ar sail y data ym mharagraff 75, ein barn yn ymgynghoriad 2020 oedd bod cyfran yr hawliadau a wrthodwyd ar sail "rhy hwyr" yn fach a bod y meini prawf 'amgylchiadau eithriadol' ar gyfer caniatáu ceisiadau y tu allan i'r terfynau amser yn ymddangos fel eu bod yn gweithio'n dda, yn unol â chynlluniau rhyngwladol eraill, ac yn osgoi effaith anghymesur ar y rheini sy'n hawlio am ymosodiad rhywiol. Daeth i'r casgliad bod y terfyn amser dwy flynedd yn rhoi digon o amser i ddioddefwyr yn y rhan fwyaf o achosion ystyried gwneud hawliad, ac yn helpu i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu'n ddidrafferth. Felly, nid oedd yn cynnwys unrhyw opsiynau ar gyfer newid, ond yn hytrach roedd yn cyfeirio at waith i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a'r angen i wneud cais amserol – gan gynnwys drwy ddiwygiadau i'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr ("y Cod Dioddefwyr"). Cyhoeddwyd y rhain yn rhifyn mis Tachwedd 2020 o'r Cod, sy'n nodi'r angen i wneud cais yn ddi-oed, y posibilrwydd o ymestyn y terfyn amser dwy flynedd mewn amgylchiadau eithriadol, y rheolau gwahanol ar gyfer ymgeiswyr a oedd o dan 18 oed ar adeg y digwyddiad a phwysigrwydd peidio ag aros am ganlyniad treial troseddol.[20]

78. Manteisiodd 22% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y cyfle i godi cwestiynau am derfynau amser y Cynllun drwy eu hymateb i Gwestiwn 17, gan godi pryderon tebyg i adroddiad Atebolrwydd a Gwneud Iawn yr Ymchwiliad. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cynnwys grwpiau dioddefwyr a gwasanaethau cyfreithiol yn bennaf. Y ddadl fwyaf aml oedd y dylid ymestyn terfynau amser gan fod y terfyn dwy flynedd presennol yn anaddas i ddioddefwyr trais rhywiol, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, gan fod y dioddefwyr hyn yn aml yn amharod i roi gwybod i'r heddlu am y drosedd, a gallant aros am gyfnod sylweddol o amser cyn gwneud hynny. Nododd rhai ddiffyg ymwybyddiaeth o'r Cynllun, tra mynegodd eraill bryderon bod dioddefwyr yn cael eu

[20] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020, The Code of Practice for Victims of Crime in England and Wales, 5.2-5.10.
https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime

cynghori i beidio â gwneud cais cyn treial yn yr ofn y gellid ei ddefnyddio yn eu herbyn yn y llys, a dywedodd eraill y bydd rhai’n cael eu hatal rhag ymgeisio’n gyfan gwbl am eu bod yn credu ei bod yn rhy hwyr i wneud hynny, ac felly nad ydynt i’w gweld yn nata’r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol.

79. Er bod y rhan fwyaf o achosion o gam-drin a chamfanteisio’n rhywiol ar blant, a thrais rhywiol difrifol yn cymryd mwy na dwy flynedd i’w cwblhau ar hyn o bryd, anogir dioddefwyr i wneud cais i’r Cynllun cyn gynted â phosibl. Nid yw’r gwaith yr ydym wedi’i wneud i archwilio’r mater hwn wedi dangos unrhyw berthynas achosol rhwng faint o amser y mae achosion yn ei gymryd a phryd y mae pobl yn gwneud cais. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi casglu tystiolaeth i awgrymu y gallai rhai dioddefwyr gael eu hatal rhag ymgeisio oherwydd y posibilrwydd o gael eu croesholi ar eu cais am iawndal mewn ymgais i danseilio hygrededd y tyst ac i awgrymu bod eu honiad yn ffug ac wedi’i gymell gan enillion ariannol. Nid yw’r Comisiwn wedi cynnig y dylid newid terfynau amser gan y gallai hyn arwain at oedi cyn i ddioddefwyr gael iawndal y mae ganddynt hawl iddo, gan ffafrio cyfyngiadau ar dderbynioldeb a'r defnydd o hawliadau mewn treialon.[21]

80. Roedd adroddiad terfynol yr Ymchwiliad, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022, yn argymell:

    Bod llywodraeth y DU yn diwygio'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (y Cynllun) er mwyn cynyddu’r terfyn amser ar gyfer ceisiadau am gam-drin plant yn rhywiol fel bod gan ymgeiswyr saith mlynedd i wneud cais o (a) y dyddiad y rhoddwyd gwybod i’r heddlu am y drosedd neu (b) yn 18 oed, lle rhoddwyd gwybod am y drosedd pan oedd y dioddefwr yn blentyn. O dan y naill amgylchiad neu’r llall, mae disgresiwn y swyddog hawliadau i ymestyn y terfyn amser yn parhau.

81. Gan ychwanegu at ei sylwadau cynharach ar y terfyn amser o ddwy flynedd, dywedodd yr Ymchwiliad ei bod yn anodd i ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol y rhoddwyd gwybod am eu camdriniaeth pan oeddent yn blentyn, wneud cais erbyn y dyddiad cau ar eu pen-blwydd yn 20 oed. Nododd y gellir rhoi gwybodaeth wael neu anghywir i ddioddefwyr ynghylch sut a phryd i wneud cais, neu gael eu cynghori gan yr heddlu i aros tan ddiwedd achosion troseddol, ac efallai na fydd dioddefwyr yn barod yn seicolegol i ymgymryd â phroses iawndal ochr yn ochr ag achosion troseddol.

[21] Comisiwn y Gyfraith, cyhoeddwyd Mai 2023, Evidence in Sexual Offences Prosecutions, 269-284. https://www.lawcom.gov.uk/project/evidence-in-sexual-offence-prosecutions/

## Opsiynau posibl ar gyfer diwygio

82. Yn ymgynghoriad 2020, roeddem o'r farn bod y cyfyngiadau amser presennol yn gweithio'n dda, ond roeddem yn cydnabod nad oedd dioddefwyr bob amser yn cael digon o wybodaeth am yr angen i wneud cais o fewn dwy flynedd neu eu bod wedi cael cyngor anghywir i aros tan ddiwedd yr achos llys cyn gwneud cais. Cafodd hyn ei fwydo i mewn i waith ar draws y Llywodraeth, a diwygiadau i'r Cod Dioddefwyr i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ledled Cymru a Lloegr. Mae'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion yn cynnwys dyletswydd ar gyrff cyfiawnder troseddol i hybu ymwybyddiaeth o'r Cod Dioddefwyr, a fydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r wybodaeth am y Cynllun sydd yn y Cod.

83. Er bod data ar effeithiolrwydd y cyfyngiadau amser presennol yn dal yn gryf, rydym wedi ystyried ymhellach sut y gallem newid terfynau amser y Cynllun i gydnabod argymhelliad yr Ymchwiliad a chryfder pryderon rhanddeiliaid. Rydym wedi ystyried argymhelliad yr Ymchwiliad ar y cyd â sut i sicrhau bod yr opsiynau'n aros yn driw i'r graddau mwyaf posibl i'r egwyddorion allweddol y sefydlwyd y Cynllun arnynt. Rydym wedi datblygu'r pedwar opsiwn canlynol:
    - Diwygio'r terfyn amser i <u>saith mlynedd</u> ar gyfer <u>ymgeiswyr cam-drin plant yn rhywiol</u> a oedd yn blant dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf fel yr argymhellwyd gan yr Ymchwiliad
    - Newid y terfyn amser i <u>saith mlynedd</u> ar gyfer <u>pob</u> ymgeisydd
    - Newid y terfyn amser i <u>dair blynedd</u> ar gyfer <u>pob ymgeisydd a oedd yn blant</u> dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf
    - Newid y terfyn amser i <u>dair blynedd</u> ar gyfer pob ymgeisydd

84. Yn yr un modd â'r opsiynau ar gyfer newidiadau i gwmpas y Cynllun, rydym wedi asesu effaith dim newid a'r pedwar dull o newid terfynau amser y Cynllun. Yn ogystal â'r drafodaeth sy'n dilyn, rydym yn gwahodd safbwyntiau ar bob ffordd o ddiwygio a sut y gellid gweithredu'r diwygiadau.

**Dim newid i derfynau amser y Cynllun**

85. Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r cyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad y digwyddiad (neu os digwyddodd y digwyddiad cyn pen-blwydd y dioddefwr yn 18 oed, y diweddaraf o'u pen-blwydd yn 20 oed neu ddwy flynedd ers iddynt roi gwybod i'r heddlu am y digwyddiad) i ddioddefwyr wneud cais i'r Cynllun. Byddai'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cadw'r disgresiwn i dderbyn hawliadau y tu allan i'r terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol.

86. Mae terfyn amser dwy flynedd presennol y Cynllun yn sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth i fwrw ymlaen â'u hadferiad, bod yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn gallu casglu digon o dystiolaeth i benderfynu ar hawliadau digolledu ac i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y Cynllun. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn parhau

i gefnogi casgliad blaenorol yr adolygiad bod dwy flynedd yn ddigon o amser i'r rhan fwyaf o ddioddefwyr wneud cais, a bod y meini prawf 'amgylchiadau eithriadol' ar gyfer ymestyn y terfyn amser yn gweithio'n dda ac yn cynnal yr egwyddor y dylid diogelu iawndal i'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan eu hanafiadau. Mae perygl y bydd unrhyw wyro oddi wrth y dull hwn ar gyfer categorïau penodol o ddioddefwyr yn creu hierarchaeth o ddioddefwyr ac yn tanseilio cyffredinolrwydd y Cynllun.

87. Mae gwaith wedi'i wneud i wella ymwybyddiaeth o'r Cynllun a'r angen i wneud cais o fewn dwy flynedd i ddigwyddiad. Er ei bod yn amhosibl priodoli hyn i un achos unigol, cynyddodd nifer yr hawliadau newydd i'r Cynllun 12% rhwng 2019/20 a 2022/23, gyda'r nifer uchaf o geisiadau newydd ers cyflwyno Cynllun 2012 wedi digwydd yn y ddwy flynedd diwethaf. Yn ogystal â hyn, mae ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ar Dystiolaeth mewn Erlyniadau Troseddau Rhywiol yn cynnwys pennod ar dderbynioldeb tystiolaeth o hawliadau i'r Cynllun mewn treialon troseddau rhywiol.[22] Fel y nodwyd uchod (paragraff 79) nid oedd y Comisiwn yn argymell diwygio'r terfynau amser ar gyfer hawliadau, ond yn hytrach yn cynnig cyfyngiadau ar dderbynioldeb tystiolaeth o'r fath.

88. Mae dim newid yn opsiwn o hyd, gan fod y cyfiawnhad dros y cyfyngiadau amser presennol a'r dystiolaeth ategol ar gyfer gweithredu'r cyfyngiadau amser presennol yn aros yr un fath ag ar adeg yr adolygiad ac ymgynghoriad 2020.

**Cwestiwn 6:** Beth yw eich barn am gadw cyfyngiadau amser y Cynllun yr un fath?

**Cwestiwn 7:** Pa gamau pellach y gellid eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a'i derfynau amser?

### Diwygio'r terfyn amser i saith mlynedd ar gyfer ymgeiswyr cam-drin plant yn rhywiol a oedd yn blant dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf fel yr argymhellwyd gan yr Ymchwiliad

89. Byddai'r opsiwn hwn yn mabwysiadu argymhelliad yr Ymchwiliad i gynyddu'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau am gam-drin plant yn rhywiol fel bod gan ymgeiswyr saith mlynedd i wneud cais o'r dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r heddlu am y drosedd neu pan yn 18 oed, lle rhoddwyd gwybod am y drosedd pan oedd y dioddefwr yn blentyn. Byddai'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cadw disgresiwn i ymestyn y terfyn amser hwn mewn amgylchiadau eithriadol. Nod hyn yw lleihau unrhyw effaith ataliol y mae'r terfyn amser presennol yn ei chael ar ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol sy'n berthnasol i'r Cynllun a dileu'r angen iddynt brofi 'amgylchiadau eithriadol' wrth wneud hawliad.

[22]Comisiwn y Gyfraith, 2023, 279.

90. Nid oedd yr Ymchwiliad yn rhoi rheswm dros argymell saith mlynedd yn hytrach nag unrhyw derfyn amser arall, gan ddweud ei fod 'yn fwy priodol' na dwy flynedd, o ystyried y trawma sy'n gysylltiedig ag achosion cam-drin plant yn rhywiol. Roedd yr Ymchwiliad yn ystyried a ddylai'r terfyn dwy flynedd ddechrau ar ôl i achosion troseddol ddod i ben ond penderfynodd y gallai hyn arwain at driniaeth wahanol yn dibynnu ar gynnydd achosion troseddol ac efallai y byddai'n anodd diffinio'r hyn a olygir wrth 'ganlyniad achos troseddol'.

91. Wrth argymell bod terfynau amser yn dechrau o'r 'dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r heddlu am y trosedd; neu o 18 oed, lle rhoddwyd gwybod am y drosedd pan oedd y dioddefwr yn blentyn', mae'r Ymchwiliad yn adlewyrchu dull presennol y Cynllun ar gyfer ymgeiswyr a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad yr anaf.

92. Er y gallai'r dull hwn gynyddu nifer y dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol sy'n gallu cael iawndal drwy'r Cynllun, ar yr amod eu bod yn gallu darparu'r dystiolaeth angenrheidiol, mae'n gwyro oddi wrth un o egwyddorion pwysig y Cynllun. Drwy gyfyngu'r terfyn amser estynedig i un categori o ddioddefwr, mae'n tynnu oddi ar gymeriad cyffredinol y Cynllun ac yn creu hierarchaeth o ddioddefwyr, gyda phlant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael eu trin yn fwy ffafriol na phlant sy'n dioddef mathau eraill o gam-drin. O ystyried y gallai llawer o'r rhesymeg dros ymestyn y terfyn amser ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod hefyd fod yn berthnasol i gam-drin corfforol yn ystod plentyndod, nid yw'n glir bod sail resymegol gref dros gyfyngu ar yr estyniad yn y modd hwn.

93. Byddai'r dull hwn hefyd yn peryglu cynaliadwyedd ariannol y Cynllun. Er ein bod yn gwybod bod llawer o ymgeiswyr cam-drin plant yn rhywiol eisoes yn cael iawndal drwy ddarpariaethau amgylchiadau eithriadol y Cynllun, mae'n debyg y byddai ymestyn y terfyn amser yn arwain at gynnydd yn nifer y ceisiadau a dderbynnir y tu hwnt i'r terfyn amser presennol o ddwy flynedd. Er na fyddai hyn o bosibl yn arwain at gynnydd sylweddol yn swm cyffredinol yr iawndal a delir gan yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol, byddai'n cynyddu'r costau gweithredol nid yn unig ar gyfer yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol, gan y byddai angen i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol gasglu tystiolaeth ar nifer fwy o hawliadau. Gallai hyn fod yn her benodol, oherwydd efallai na fydd y dystiolaeth ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch, neu hyd yn oed ddim yn cael ei chadw am gyhyd â hynny.[23] Byddai cael tystiolaeth yn yr achosion ychwanegol hyn hefyd yn rhoi mwy o faich gweinyddol a chost heb ei ariannu ar asiantaethau eraill gan gynnwys yr heddlu ac awdurdodau meddygol.

[23]Mewn ymateb i Argymhelliad 17 yr Ymchwiliad (mynediad at gofnodion), mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi ymrwymo i adolygu ei chanllawiau presennol ac ystyried cyhoeddi canllawiau ychwanegol i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol a sefydliadau sy'n dal eu cofnodion.

**Cwestiwn 8:** Beth yw eich barn am ddiwygio terfyn amser y Cynllun i saith mlynedd ar gyfer ymgeiswyr cam-drin plant yn rhywiol a oedd yn blant dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf, gyda'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cadw disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol?

**Ymestyn y terfyn amser i saith mlynedd ar gyfer pob ymgeisydd**

94. Mae'r opsiwn hwn yn adeiladu ar argymhelliad yr Ymchwiliad i ymestyn y terfyn amser i saith mlynedd ar gyfer *pob* ymgeisydd, yn hytrach na chyfyngu ar ymestyn ceisiadau mewn perthynas â digwyddiadau o gam-drin plant yn rhywiol. Ar gyfer ymgeiswyr dan ddeunaw oed ar adeg y digwyddiad, byddai'r saith mlynedd yn cychwyn naill ai o'r dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r heddlu am y trosedd neu pan yn 18 oed, lle rhoddwyd gwybod am y trosedd pan oedd y dioddefwr yn blentyn. Byddai'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cadw'r disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol.

95. Mae hyn yn cyflawni ac yn mynd ymhellach nag argymhelliad yr Ymchwiliad gan gynnal cyffredinolrwydd y Cynllun ac osgoi creu hierarchaeth o ddioddefwyr. Yn hytrach, byddai pob ymgeisydd yn gallu elwa o'r amserlen estynedig, gan roi mwy o amser iddynt baratoi ar gyfer y broses iawndal, a byddai llai o ymgeiswyr a fyddai fel arall â digon o dystiolaeth i gael iawndal yn llwyddiannus drwy'r llwybr 'amgylchiadau eithriadol' yn cael eu hatal rhag gwneud cais erbyn y terfyn amser. Gallai hyn fod o fudd i ddioddefwyr troseddau anodd eu datgelu fel cam-drin domestig neu rywiol, yn ogystal â'r rheini yr effeithiwyd ar eu hachosion gan oedi yn y system gyfiawnder. Byddai'r dull hwn hefyd yn cyd-fynd ag egwyddor y Cynllun o fod yn 'ddewis olaf', drwy roi mwy o amser i ymgeiswyr archwilio llwybrau iawndal eraill.

96. Fodd bynnag, byddai'r dull hwn yn achosi anawsterau sylweddol o ran tystiolaeth oherwydd yr amser a allai fod wedi mynd heibio ers y digwyddiad. Yn ogystal â chynyddu'r gost weinyddol i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol o brosesu'r ceisiadau hyn, gall diffyg tystiolaeth olygu bod rhai ymgeiswyr sy'n gymwys o'r newydd yn dal i fod yn aflwyddiannus o ran cael iawndal. Fel gydag argymhelliad yr Ymchwiliad, nid oes tystiolaeth glir pam mai saith mlynedd yw'r terfyn amser mwyaf priodol ar gyfer y Cynllun.

97. Byddai'r dull hwn yn cael yr effaith gyffredinol fwyaf ar adnoddau'r Cynllun yn sgil unrhyw un o'r opsiynau newid sy'n cael eu hystyried, a byddai perygl y byddai'r Cynllun naill ai'n anfforddiadwy, neu'n lleihau'n sylweddol werth dyfarniadau a lefel y gwasanaeth i ymgeiswyr.

**Cwestiwn 9:** Beth yw eich barn am ddiwygio terfyn amser y Cynllun i saith mlynedd ar gyfer pob cais, gyda'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cadw disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol?

98. O ystyried rhesymeg yr Ymchwiliad y dylai saith mlynedd fod yn ddigon i ganiatáu i geisiadau cadarn gael eu gwneud i'r Cynllun, efallai na fydd angen mwyach i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol gadw disgresiwn i dderbyn achosion y tu allan i'r terfyn amser pe bai'n cael ei godi i saith mlynedd. Byddai hyn o bosibl yn lleihau'r baich gweinyddol ar yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol, gan ei alluogi i brosesu hawliadau'n gyflymach, yn hytrach na gorfod treulio amser yn asesu'r dystiolaeth o geisiadau y tu allan i'r terfyn amser diwygiedig.

99. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai hyn olygu nad yw'r achosion mwyaf hanesyddol yn gallu cael iawndal drwy'r Cynllun mwyach. Mae'n amlwg hefyd na fyddai'r graddau cyfyngedig y byddai arbedion gweinyddol yn codi yn helpu i gydbwyso cost dyfarniadau ychwanegol o ganlyniad i derfyn amser o saith mlynedd.

**Cwestiwn 10:** Pe bai'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau i'r Cynllun yn cael ei ymestyn i saith mlynedd, naill ai ar gyfer ceisiadau mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol neu ar gyfer pob cais, a oes angen i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol gadw disgresiwn i ymestyn y terfyn amser ymhellach mewn amgylchiadau eithriadol?

**Newid y terfyn amser i <u>dair blynedd</u> ar gyfer <u>pob ymgeisydd a oedd yn blant</u> dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf**

100. Mae'r opsiwn hwn yn addasiad o argymhelliad yr Ymchwiliad. Byddai'n ymestyn y terfyn amser ar gyfer pob ymgeisydd a oedd yn blant ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf. Byddai'r terfyn amser yn cael ei ymestyn i dair blynedd o'r dyddiad yr adroddwyd am y trosedd i'r heddlu neu i 18 oed, lle rhoddwyd gwybod am y trosedd pan oedd y dioddefwr yn blentyn. Byddai disgresiwn yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol i ymestyn y terfyn amser yn parhau.

101. Byddai'n ymateb i'r ffaith bod yr Ymchwiliad wedi nodi bod angen newid, ond gyda rhesymeg gliriach dros y terfyn amser, gan y byddai'r terfyn amser o dair blynedd yn cysoni terfyn amser y Cynllun â therfynau amser perthnasol eraill yn y system gyfiawnder, fel ymgyfreitha sifil. Byddai hefyd yn rhoi esboniad cliriach am wyro oddi wrth yr egwyddor o gyffredinolrwydd, gan fod ceisiadau gan blant eisoes yn cael eu trin yn wahanol, ac ni fyddai'r dull hwn yn gwahaniaethu rhwng achosion o gam-drin rhywiol yn y gorffennol a cham-drin plant yn gorfforol yn y gorffennol. Byddai hefyd yn cadw disgresiwn yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol i ymestyn y terfyn amser, y mae'r dystiolaeth yn awgrymu sy'n gweithio'n dda.

102. Serch hynny, mae'r terfyn amser o dair blynedd yn destun dadl. Y tu hwnt i alinio â rhai cyfnodau cadw data presennol, nid oes tystiolaeth gref i gefnogi dewis tair blynedd yn y maes hwn yn benodol. Ar ben hynny, efallai na fydd estyniad i dair blynedd yn ddigon i oresgyn y materion sydd wedi cael eu codi gyda'r terfyn amser presennol, oherwydd hyd ymchwiliadau'r heddlu a'r trawma sy'n deillio o rai o'r troseddau dan sylw. Yn wir, cafwyd argymhellodd ar wahân gan yr Ymchwiliad y dylid dileu'r cyfnod cyfyngiad o dair blynedd ar gyfer hawliadau am anafiadau personol.[24] Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi papur ymgynghori yn ddiweddarach eleni yn edrych ar opsiynau ar sut y gellid cryfhau'r canllawiau barnwrol presennol mewn achosion cam-drin plant yn rhywiol yn ogystal â nodi opsiynau ar gyfer diwygio cyfraith cyfyngiadau mewn achosion cam-drin plant yn rhywiol.

**Cwestiwn 11:** Beth yw eich barn ynghylch newid y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd a oedd yn blant dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf?

**Ymestyn y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd**

103. Yn olaf, byddai'r opsiwn hwn yn ymestyn y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd i'r cynllun. Ar gyfer ymgeiswyr dan ddeunaw oed ar adeg y digwyddiad, byddai'r tair blynedd yn dechrau naill ai o'r dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r heddlu am y trosedd neu pan oedd yn 18 oed, lle rhoddwyd gwybod am y trosedd pan oedd y dioddefwr yn blentyn. Byddai'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cadw'r disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol.

104. Mae manteision yr opsiwn hwn yn debyg i rai'r opsiwn blaenorol, gan ymateb i'r angen am newid a nodwyd gan yr Ymchwiliad a sicrhau bod y terfyn amser yn cyd-fynd â'r rhai mewn rhannau eraill o'r system gyfiawnder. Mae ganddo'r fantais ychwanegol o gynnal cyffredinolrwydd yn well ac osgoi creu hierarchaeth o ddioddefwyr drwy ymestyn y terfyn amser ar gyfer pob ymgeisydd. Gallai felly fod o fudd i ddioddefwyr yr effeithir arnynt gan oedi yn y system gyfiawnder neu ddioddefwyr troseddau anodd eu datgelu fel cam-drin domestig neu rywiol, yn hytrach na dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol yn unig. Byddai hyn yn symlach i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol, gan na fyddai angen iddynt nodi a oedd y digwyddiad neu'r ymgeisydd yn gymwys i gael y terfyn amser estynedig wrth brosesu'r cais. Mae materion tebyg hefyd, o ran a fyddai terfyn amser o dair blynedd o fudd i ymgeiswyr, yn ogystal â'r goblygiadau gweithredol a goblygiadau cost posibl.

[24] Cafodd y cyfnod cyfyngiad o dair blynedd ar gyfer achosion anaf personol a ddygir gan ddioddefwyr cam-drin plant ei ddileu yn yr Alban gan Ddeddf Cyfyngiadau (Cam-drin Plant) (Yr Alban) 2017.

**Cwestiwn 12:** Beth yw eich barn am newid y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd i'r Cynllun?

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

## Cwmpas

**Cwestiwn 1:** Beth yw eich barn am gwmpas y Cynllun heb ei newid?

**Cwestiwn 2:** Beth yw eich barn am ddiwygio'r diffiniad o drosedd treisgar i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol?

**Cwestiwn 3:** Pa droseddau rhywiol di-gyswllt yn erbyn plant y dylid eu cynnwys yng nghwmpas y Cynllun?

**Cwestiwn 4:** Beth yw eich barn am ddod â throseddau digyswllt difrifol o fewn cwmpas y Cynllun?

**Cwestiwn 5:** Pa droseddau digyswllt y dylid eu cynnwys yn y Cynllun?

## Terfynau amser

**Cwestiwn 6:** Beth yw eich barn am gadw cyfyngiadau amser y Cynllun yr un fath?

**Cwestiwn 7:** Beth yw eich barn am ddiwygio terfyn amser y Cynllun i saith mlynedd ar gyfer ymgeiswyr cam-drin plant yn rhywiol a oedd yn blant dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf, gyda'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cadw disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol?

**Cwestiwn 8:** Pa gamau pellach y gellid eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a'i derfynau amser?

**Cwestiwn 9:** Beth yw eich barn am ddiwygio terfyn amser y Cynllun i saith mlynedd ar gyfer pob cais, gyda'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cadw disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol?

**Cwestiwn 10:** Pe bai'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau i'r Cynllun yn cael ei ymestyn i saith mlynedd, naill ai ar gyfer ceisiadau mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol neu ar gyfer pob cais, a oes angen i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol gadw disgresiwn i ymestyn y terfyn amser ymhellach mewn amgylchiadau eithriadol?

**Cwestiwn 11:** Beth yw eich barn ynghylch newid y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd a oedd yn blant dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf?

**Cwestiwn 12:** Beth yw eich barn am newid y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd i'r Cynllun?

## Cydraddoldeb

**Cwestiwn 13:** Ydych chi'n cytuno ein bod wedi nodi'n gywir amrediad ac ystod yr effeithiau ar gydraddoldeb o beidio â newid ac ar gyfer pob un o'r diwygiadau posibl a nodir yn yr ymgynghoriad hwn (Atodiad A)? Rhowch resymau a thystiolaeth o effeithiau pellach ar gydraddoldeb fel y bo'n briodol.

**Cwestiwn 14:** Oes unrhyw ddull lliniaru o ran effeithiau ar gydraddoldeb nad ydym wedi ei ystyried?

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

# Amdanoch chi

Rhowch wybodaeth amdanoch chi yn yr adran hon

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i’r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o’r cyhoedd ac ati.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw’r cwmni/sefydliad** (os yw’n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod post** | |
| Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw’n wahanol i’r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych chi’n cynrychioli grŵp,** rhowch enw’r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o’r bobl neu'r mudiadau rydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 15 Medi 2023 at:

**Vulnerability and Criminal Law Policy Unit**
Ministry of Justice
Victims, Vulnerability and Criminal Law Policy Directorate
7th Floor
102 Petty France
London SW1H 9AJ

**E-bost:** cics-review@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio’r cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae rhagor o gopïau papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/cics-review-additional-consultation-2023.

Gellir gwneud cais am gopïau o’r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill gan cics-review@justice.gov.uk.

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi’r ymatebion i’r ymgynghoriad hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn https://consult.justice.gov.uk/.

## Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi disgrifiad cryno o’r bobl a’r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

## Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei chadw'n gyfrinachol, rhaid i ni eich atgoffa bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. Oherwydd hyn, byddai'n fuddiol pe gallech esbonio wrthym pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os ydym yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, rhoddwn ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn addo y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth ar ei ben ei hun.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

# Atodiad A: Datganiad Cydraddoldeb

## Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi cwmpas a therfynau amser cyfredol y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol (y Cynllun) a'r opsiynau ar gyfer newid mewn ymateb i argymhellion yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (yr Ymchwiliad). Roedd yr Ymchwiliad yn dilyn ein hymgynghoriad yn 2020 ar gynigion i ddarparu gwell mynediad at iawndal i ddioddefwyr troseddau treisgar gan sicrhau bod y Cynllun yn parhau i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn ariannol, a'n hymgynghoriad atodol yn 2022 ar reol euogfarnau heb eu disbyddu y Cynllun. Roedd yr ymgynghoriadau blaenorol yn ystyried cynigion ac opsiynau ar gyfer elfennau o'r Cynllun oedd yn wahanol i'r rhai a ystyriwyd yn yr ymgynghoriad hwn.[25] Felly, byddwn yn ystyried yr holl ymatebion a ddaw i law ar effeithiau ar gydraddoldeb yn gyffredinol ar ôl yr ymgynghoriad hwn.

2. Pwrpas craidd y Cynllun, a ail-ategwyd drwy ein hadolygiad a dau ymgynghoriad blaenorol, yw cydnabod, drwy iawndal, y niwed a ddioddefir gan ddioddefwr a anafwyd o ganlyniad i drosedd treisgar.[26] Rhaid i'r Cynllun weithio yr un mor dda i bawb sydd wedi dioddef trosedd treisgar. Mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA), sy'n gweinyddu'r Cynllun, felly'n asesu pob cais yn erbyn yr un meini prawf cymhwysedd, gofynion a thariffau anafiadau. Mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau ar gyfer pob dioddefwr yn cael eu gwneud mewn ffordd gyson, teg a thryloyw. Mae ystyried effeithiau posibl yr opsiynau a gyflwynir yn yr ymgynghoriad ar gydraddoldeb yn elfen allweddol o hyn.

## Crynodeb o'r diwygiadau posib i'r polisi

3. Mae'r datganiad cydraddoldeb hwn yn adeiladu ar yr effeithiau ar gydraddoldeb a nodwyd yn yr ymgynghoriadau blaenorol drwy ystyried effeithiau cydraddoldeb

---

[25] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gorffennaf 2020, Criminal Injuries Compensation Scheme Review 2020 - GOV.UK
https://www.gov.uk/government/consultations/criminal-injuries-compensation-scheme-review-2020
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gorffennaf 2022, Criminal Injuries Compensation Scheme Review: Supplementary Consultation 2023 – GOV.UK
https://www.gov.uk/government/consultations/criminal-injuries-compensation-scheme-review-supplementary-consultation

[26] Diffinnir yn Atodiad B y Cynllun https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/808343/criminal-injuries-compensation-scheme-2012.pdf

opsiynau'r ymgynghoriad hwn o ran cwmpas y Cynllun a'r terfyn amser ar gyfer gwneud cais. Mae'r opsiynau fel a ganlyn:

**Cwmpas y Cynllun**

- **Dim Newid** – Mae iawndal yn daladwy i bobl gymwys a anafwyd o ganlyniad i droseddau treisgar, a ddiffinnir yn Atodiad B y Cynllun. Caiff pob cais ei asesu yn erbyn yr un meini prawf cymhwysedd, gofynion a thariffau anafiadau. Mae'r diffiniad presennol o droseddau treisgar yn cynnwys pan fo troseddau digyswllt fel meithrin perthynas amhriodol a stelcio yn esgoli i fod yn rhai sy'n cynnwys trais neu fygythiadau o drais ar unwaith.
- **Opsiwn 1a, Diwygio'r diffiniad o 'drosedd treisgar' i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein** – byddai Atodiad B y Cynllun yn cael ei ddiwygio i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol yn ddigyswllt, gan gynnwys cam-drin rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein fel meithrin perthynas amhriodol a throseddau delweddau, fel yr argymhellwyd gan yr Ymchwiliad.
- **Opsiwn 1b, Diwygio'r meini prawf cymhwysedd i ddod â throseddau digyswllt gydag effaith gyfatebol o fewn cwmpas y cynllun** - Byddai'r opsiwn hwn yn ychwanegu categori newydd o droseddau digyswllt at dri chategori cymhwysedd presennol y Cynllun (h.y. bod yn ddioddefwr uniongyrchol o drosedd neu drais; ii. cael anaf y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i gymryd risg eithriadol a chyfiawn i atal neu liniaru trosedd, cynorthwyo cwnstabl, neu ddal troseddwr; neu iii. bod yn dyst i anwylyd yn cael anaf troseddol). Gallai'r categori hwn gynnwys cam-drin rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein a throseddau eraill fel meithrin perthynas amhriodol, rheolaeth orfodol, pornograffi dial ac ystelcio.

**Terfynau amser ar gyfer gwneud cais i'r Cynllun**

- **Dim newid** – Rhaid i ddioddefwyr wneud cais i'r Cynllun cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn dwy flynedd i'r digwyddiad a arweiniodd at yr anaf. Os oedd yr ymgeisydd o dan 18 oed ar ddyddiad yr anaf, rhaid i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol dderbyn y cais ar neu cyn pen-blwydd yr ymgeisydd yn 20 oed lle rhoddwyd gwybod gyntaf i'r heddlu am y digwyddiad cyn eu pen-blwydd yn 18 oed neu o fewn 2 flynedd i'r digwyddiad gael ei hysbysu'n gyntaf i'r heddlu lle cafodd ei riportio ar ei ben-blwydd yn 18 oed neu ar ôl hynny. Ym mhob achos, mae'n dal yn bosibl ystyried hawliadau a wneir y tu allan i'r terfyn perthnasol mewn amgylchiadau eithriadol.
- **Opsiwn 2a, Diwygio'r terfyn amser i saith mlynedd ar gyfer ymgeiswyr cam-drin plant yn rhywiol a oedd yn blant o dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf fel yr argymhellwyd gan yr Ymchwiliad** – Byddai hyn yn mabwysiadu argymhelliad yr Ymchwiliad i gynyddu'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau mewn perthynas â digwyddiadau o gam-drin plant yn rhywiol fel bod gan ymgeiswyr saith mlynedd i wneud cais o'r dyddiad yr adroddwyd y trosedd i'r heddlu, neu'n 18 oed, pan riportiwyd y drosedd pan oedd y dioddefwr yn blentyn. Byddai'r Awdurdod

Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cadw'r disgresiwn i ymestyn y terfyn amser hwn mewn amgylchiadau eithriadol.

- **Opsiwn 2b, Ymestyn y terfyn amser i saith mlynedd ar gyfer pob ymgeisydd** - Mae'r opsiwn hwn yn adeiladu ar argymhelliad yr Ymchwiliad i ymestyn y terfyn amser i saith mlynedd ar gyfer *pob* ymgeisydd, yn hytrach na chyfyngu ar ymestyn ceisiadau mewn perthynas â digwyddiadau o gam-drin plant yn rhywiol. Ar gyfer ymgeiswyr dan 18 oed ar adeg y digwyddiad, byddai'r saith blynedd yn dechrau naill ai o'r dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r heddlu am y trosedd neu pan oedd yn 18 oed, lle rhoddwyd gwybod am y trosedd pan oedd y dioddefwr yn blentyn. Byddai'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cadw'r disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol.
- **Opsiwn 2c Diwygio'r terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd a oedd yn blant dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf** – Mae hyn yn addasu argymhelliad yr Ymchwiliad Byddai'n ymestyn y terfyn amser ar gyfer pob ymgeisydd a oedd yn blant ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf. Byddai'r terfyn amser yn cael ei ymestyn i dair blynedd o'r dyddiad yr adroddwyd am y trosedd i'r heddlu neu i 18 oed, lle rhoddwyd gwybod am y trosedd pan oedd y dioddefwr yn blentyn. Byddai disgresiwn yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol i ymestyn y terfyn amser yn parhau.
- **Opsiwn 2d, Ymestyn y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd** – Byddai'r opsiwn hwn yn ymestyn y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd i'r cynllun. Ar gyfer ymgeiswyr dan 18 oed ar adeg y digwyddiad, byddai'r tair blynedd yn dechrau naill ai o'r dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r heddlu am y trosedd neu pan oedd yn 18 oed, lle rhoddwyd gwybod am y trosedd pan oedd y dioddefwr yn blentyn. Byddai'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol yn cadw'r disgresiwn i ymestyn y terfyn amser mewn amgylchiadau eithriadol.

## Dyletswyddau Cydraddoldeb

4. Mae'r ddogfen hon yn cofnodi'r dadansoddiad a wnaed gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gyflawni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel y nodir yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:
    - **dileu gwahaniaethu anghyfreithlon** - gwahaniaethu uniongyrchol, gwahaniaethu anuniongyrchol, gwahaniaethu ar sail anabledd, ac aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf
    - **datblygu cyfle cyfartal** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu
    - **meithrin cysylltiadau da** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu

**5.** Dyma'r nodweddion gwarchodedig sydd wedi cael eu hystyried:

- rhyw
- oed
- hil
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- crefydd neu gred
- cyfeiriadedd rhywiol
- priodas a phartneriaeth sifil (ond dim ond mewn cysylltiad â nod cyntaf y Ddyletswydd Cydraddoldeb)

## Ystyriaethau Cydraddoldeb

### Gwahaniaethu uniongyrchol

6. Byddai opsiynau 1a, 2a a 2c yn yr ymgynghoriad o fudd i ddioddefwyr a oedd o dan 18 oed yn unig ar ddyddiad y trosedd. Mae hyn yn golygu, o ran nodwedd warchodedig oedran o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, bod yr opsiynau hyn yn gwahaniaethu’n uniongyrchol yn erbyn pobl hŷn. Fodd bynnag, credwn eu bod yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon ac felly eu bod yn gyfreithlon, o ystyried yr angen i ystyried mynediad at gyfiawnder yn wyneb bregusrwydd a thrawma hysbys i blant sy’n dioddef trosedd. Credwn nad yw’r opsiynau eraill a gyflwynir yn yr ymgynghoriad yn gwahaniaethu’n uniongyrchol ac na fyddent yn arwain at drin pobl yn llai ffafriol oherwydd unrhyw nodwedd warchodedig.

### Gwahaniaethu anuniongyrchol

7. Ar sail y data sydd ar gael, rydym o’r farn y gallai’r opsiynau ymgynghori gael effaith anghymesur ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol oherwydd eu bod wedi’u gorgynrychioli fel dioddefwyr y troseddau treisgar sydd, neu a allai fod, o fewn cwmpas ar gyfer iawndal o dan y Cynllun. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod hyn yn debygol o arwain at anfantais benodol i ddioddefwyr nad ydynt yn rhannu’r nodweddion gwarchodedig hynny, fel yr esbonnir isod.

### Cwmpas y Cynllun

*Data cydraddoldeb ar gwmpas presennol y Cynllun*

8. Nid yw pobl sy’n dioddef troseddau di-drais yn gymwys i gael dyfarniadau. Mae rhywfaint o wybodaeth ar gael am nodweddion gwarchodedig y dioddefwyr hyn. Mae

hyn yn awgrymu bod pobl iau, menywod a phobl anabl yn fwy tebygol o ddioddef rhai troseddau di-drais.[27] Gweler paragraffau 15 i 17 am ragor o fanylion.

9. Nid ydym wedi gallu cael data ar nodweddion gwarchodedig hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas a phartneriaeth sifil.

*<u>Opsiwn 1a:</u> Diwygio'r diffiniad o 'drosedd treisgar' i gynnwys mathau eraill o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys cam-drin rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein.*

10. Byddai'r opsiwn hwn o fudd i ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol sy'n cael ei hwyluso ar-lein drwy eu gwneud yn gymwys i wneud cais am iawndal drwy'r Cynllun.

11. Gallai'r opsiwn hwn fod o fudd penodol i fenywod a merched. Mae adroddiad gan yr NSPCC, a gyhoeddwyd yn 2022, yn dangos cynnydd mewn troseddau meithrin perthynas amhriodol ar-lein, gan ddweud bod 82% o achosion meithrin perthynas amhriodol yn 2021/22, lle'r oedd y rhywedd yn hysbys, yn erbyn merched.[28]

12. Drwy ddiffiniad, byddai'r opsiwn hwn yn rhoi mwy o fudd i ddioddefwyr iau, gan y byddai'n cynyddu'r mathau o gam-drin plant yn rhywiol y gallai dioddefwyr hawlio iawndal amdanynt. Nid yw'n gwneud unrhyw newidiadau i bobl a oedd yn oedolion pan ddigwyddodd y trosedd. Efallai y bydd effaith y cynnig yn cynyddu dros amser wrth i ystadegau'r NSPCC ddangos bod troseddau meithrin perthynas amhriodol ar-lein yn cynyddu, a mae data gan 41 o heddluoedd y DU yn dangos cynnydd o 84% ers 2017/18. Mae'r Internet Watch Foundation rhyngwladol yn dweud, er mai plant rhwng 11 ac 13 oed sy'n ymddangos amlaf mewn delweddau cam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu 'hunan-gynhyrchu'[29], bod delweddau o'r fath, gan gynnwys plant rhwng 7 a 10 oed, wedi cynyddu 129% o 2021 i 2022.[30]

13. Gall pobl ag anabledd elwa o'r opsiwn hwn gan eu bod yn fwy tebygol o ddioddef y mathau o droseddau sy'n dod o dan y diffiniad estynedig. Mae adroddiad yr Ymchwiliad 'Child sexual exploitation by organised networks investigation report' a gyhoeddwyd yn 2022 yn cyfeirio at ymchwil a ariannwyd gan y Swyddfa Gartref yn

---

[27] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Gorffennaf 2017, Overview of burglary and other household theft https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/overviewofburglaryandotherhouseholdtheft/englandandwales#which-groups-in-society-are-most-likely-to-be-victims

[28] NSPCC, Gorffennaf 2022, Mae troseddau meithrin perthynas amhriodol ar-lein wedi codi dros 80% mewn pedair blynedd

https://www.nspcc.org.uk/about-us/news-opinion/2022/online-grooming-crimes-rise/

[29] 'Mae delweddau 'hunan-gynhyrchu' yn golygu delweddau a fideos 'cam-drin plant yn rhywiol' sy'n cael eu creu gan ddefnyddio ffonau clyfar neu we-gamerâu ac yna'n cael eu rhannu ar-lein. Mewn rhai achosion, mae plant yn cael eu hudo, eu twyllo neu eu gorfodi i gynhyrchu a rhannu delwedd rywiol neu fideos ohonynt eu hunain gan rywun nad yw'n bresennol yn yr ystafell gyda'r plentyn.'

[30] Internet Watch Foundation, Ebrill 2023, 'Self Generated' CSAM - 2022's Trends & Data https://annualreport2022.iwf.org.uk/trends-and-data/self-generated-csam/#

2016. Roedd hyn yn awgrymu, '*Mae rhai ffactorau, fel dealltwriaeth gyfyngedig o arwyddion cymdeithasol a rhyngweithio cymdeithasol, yn gallu rhoi pobl ifanc mewn mwy o berygl o ddioddef camfanteisio. Gall ynysu cymdeithasol hefyd wneud pobl ifanc ag anableddau yn fwy agored i feithrin amhriodol a chamfanteisio. Ystyrir bod plant sy'n fyddar neu sydd ag anabledd corfforol dair gwaith yn fwy tebygol yn gyffredinol o gael eu cam-drin na'r rheini sydd heb anabledd.*'[31]

14. Nid ydym wedi gallu cael data ar nodweddion gwarchodedig hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas a phartneriaeth sifil.

<u>Opsiwn 1b:</u> *Diwygio'r meini prawf cymhwysedd i ddod â throseddau digyswllt gydag effaith gyfatebol, fel meithrin perthynas amhriodol, rheolaeth orfodol, pornograffi dial ac ystelcio o fewn cwmpas y cynllun.*

15. Fel y nodwyd gan y data sydd ar gael, mae'n bosibl y bydd dioddefwyr sy'n iau, yn fenywod neu'n anabl yn fwy tebygol o ddioddef troseddau di-drais. Byddai'r opsiwn hwn felly o fudd i'r dioddefwyr hyn drwy eu gwneud yn gymwys i wneud cais am iawndal drwy'r Cynllun.

16. Mae data Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ar aflonyddu, ystelcio a cham-drin nad yw'n gorfforol yn awgrymu bod menywod ifanc bron ddwywaith yn fwy tebygol o ddioddef aflonyddu na dynion ifanc (21% o fenywod 16 i 34 oed o'i gymharu â 13% o ddynion yr un oed), gyda'r prif wahaniaeth rhwng menywod a dynion sy'n profi aflonyddu rhywiol (15% a 4%, yn y drefn honno).[32] Mae data hefyd yn awgrymu bod menywod fwy na dwywaith yn fwy tebygol na dynion o gael eu stelcio.[33]

17. Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod menywod rhwng 16 a 24 oed yn llai tebygol o gael eu cam-drin yn gorfforol na menywod dros 25 oed, ond eu bod yn fwy tebygol o ddioddef stelcio na menywod dros 25 oed.[34] Roedd yr un set

---

[31] IICSA, Hydref 2022, Final Report D.4: Children with disabilities https://www.iicsa.org.uk/reports-recommendations/publications/investigation/cs-organised-networks/part-d-meeting-needs-particular-groups-sexually-exploited-children/d4-children-disabilities.html

[32] ONS, Ionawr 2023, Crime in England and Wales https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingseptember2022

[33] ONS, Tachwedd 2022, Stalking: findings from the Crime Survey for England and Wales https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/stalkingfindingsfromthecrimesurveyforenglandandwales

[34] ONS, Chwefror 2016, Intimate personal violence and partner abuse https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/compendium/focusonviolentcrimeandsexualoffences/yearendingmarch2015/chapter4intimatepersonalviolenceandpartnerabuse#heavily-victimised-groups-of-partner-abuse

ddata'n dangos bod menywod ag anabledd yn fwy tebygol o gael eu cam-drin yn gorfforol na menywod heb anabledd.

18. Nid ydym wedi gallu cael data ar nodweddion gwarchodedig hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas a phartneriaeth sifil.

**Terfynau amser ar gyfer gwneud cais i'r Cynllun**

*Data cydraddoldeb ar y terfynau amser presennol ar gyfer gwneud cais i'r Cynllun*

19. Grwpiau sy'n cael eu gorgynrychioli fel dioddefwyr sy'n cael eu hanafu gan droseddau treisgar sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan derfynau amser ar gyfer gwneud cais am iawndal. Mae data'n awgrymu bod dynion a menywod yr un mor debygol o fod yn ddioddefwyr. O ran nodweddion gwarchodedig eraill, gall y rheini sydd fwyaf tebygol o ddioddef trosedd fod fel a ganlyn:
    - oed – pobl iau
    - hil – cefndir du neu ethnig cymysg
    - anabledd – pobl ag anableddau
    - crefydd a chred – Iddewon
    - priodas a phartneriaeth sifil – pobl sydd wedi gwahanu
    - cyfeiriadedd rhywiol – pobl hoyw/lesbiaidd a phobl ddeurywiol

20. Ceir rhagor o fanylion ym mharagraffau 26 i 27. Nid ydym wedi gallu cael data ar ailbennu rhywedd na beichiogrwydd a mamolaeth. Nid oes gennym ddata chwaith ar grwpiau nad ydynt yn gwneud cais am iawndal oherwydd y cyfyngiadau amser presennol ac a fyddent yn llwyddiannus pe bai'r terfyn amser yn cael ei gynyddu.

*Opsiwn 2a:* *Diwygio'r terfyn amser i saith mlynedd ar gyfer ymgeiswyr cam-drin plant yn rhywiol a oedd yn blant dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf fel yr argymhellwyd gan yr Ymchwiliad*

21. Gallai'r opsiwn hwn effeithio ar, a bod o fudd i ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol a all gyflwyno tystiolaeth o'u camdriniaeth rywiol, drwy ddileu unrhyw effaith ataliol y gallai'r terfyn amser presennol ei chael.

22. Credwn y byddai'r opsiwn hwn yn cael mwy o effaith ar fenywod a merched na dynion a bechgyn. Yn 2019, roedd y rhan fwyaf (80%) o blant sy'n dioddef troseddau rhywiol yn fenywod.[35] Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod wedi cael eu

[35] ONS, Ionawr 2020, Child sexual abuse in England and Wales: year ending March 2019 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/childsexualabuseinenglandandwales/yearendingmarch2019

cam-drin cyn 16 oed, gydag oddeutu un o bob pedair o fenywod ac un o bob chwech o ddynion wedi profi hynny.[36]

23. Gall yr opsiwn hwn gael effaith benodol ar ddioddefwyr ag anableddau gan fod ymchwil yn awgrymu y gallai cam-drin plant yn rhywiol gael effaith anghymesur ar y grŵp hwn. Mewn adolygiad llenyddiaeth gan yr Ymchwiliad a oedd yn ystyried cam-drin mewn ysgolion preswyl, nodwyd bod '*consensws bod plant anabl mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin yn rhywiol na'u cyfoedion nad ydynt yn anabl, ac mae'r rhan fwyaf o'r amcangyfrifon yn nodi bod y risg uwch hon yn rhyw dair gwaith yn fwy nag i blant nad ydynt yn anabl*'.[37] Mae astudiaeth ryngwladol, a gyhoeddwyd yng nghyfnodolyn The Lancet Child and Adolescent Health yn 2022[38] yn dweud bod plant anabl ddwywaith yn fwy tebygol o wynebu esgeulustod a/neu gam-drin rhywiol, corfforol neu feddyliol na phlant heb anableddau.[39]

24. Nid ydym wedi gallu cael data ar nodweddion gwarchodedig hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas a phartneriaeth sifil.

*<u>Opsiwn 2b:</u> Newid y terfyn amser i saith mlynedd ar gyfer pob ymgeisydd*
*Ac*
*<u>Opsiwn 2d:</u> Newid y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd*

25. Gallai'r opsiynau hyn effeithio ar bob dioddefwr a gaiff ei anafu gan drosedd treisgar a bod o fudd iddynt drwy roi mwy o amser iddynt wneud cais i'r Cynllun. Gallai opsiwn 2b gael mwy o effaith nag opsiwn 2d oherwydd y terfyn amser hirach ar gyfer gwneud cais i'r Cynllun.

26. Mae data'n awgrymu bod dynion a menywod yr un mor debygol o fod yn ddioddefwyr trosedd treisgar.[40] Gall pobl iau fod yn fwy tebygol na phobl hŷn o brofi troseddau treisgar. Dangosodd Arolwg Troseddau Ffôn Cymru a Lloegr y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 mai pobl rhwng 18 a 24 oed (3%) oedd y mwyaf tebygol o

---

36 ONS, Mawrth 2020, Child abuse in England and Wales: Mawrth 2020 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/childabuseinenglandandwales/march2020

37 IICSA, Mawrth 2019, Child sexual abuse in residential schools - a literature review https://www.iicsa.org.uk/document/child-sexual-abuse-residential-schools-literature-review.html

38 The Lancet Child & Adolescent Health, Mai 2022, https://www.thelancet.com/journals/lanchi/article/PIIS2352-4642(22)00033-5/fulltext

39 The Guardian, Mawrth 2022, Almost a third of disabled children and teenagers face abuse, global study finds https://www.theguardian.com/society/2022/mar/17/almost-a-third-of-disabled-children-and-teenagers-face-abuse-global-study-finds

40 ONS, Tachwedd 2022, The nature of violent crime in England and Wales: Year ending March 2022 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/thenatureofviolentcrimeinenglandandwales/yearendingmarch2022#groups-of-people-most-likely-to-be-victims-of-violent-crime

ddioddef hyn, a mai pobl 75 oed a hŷn oedd leiaf tebygol (0.2%)[41]. Pobl o grwpiau ethnig cymysg (20%) sydd fwyaf tebygol o ddioddef trosedd, a phobl o grwpiau ethnig gwyn sydd leiaf tebygol (13%) o ddioddef trosedd (sy'n cynnwys troseddau di-drais).[42]

27. Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos patrymau troseddau personol (sy'n cynnwys troseddau treisgar). Mae pobl ag anableddau yn fwy tebygol o fod wedi profi hyn (15.4%) na phobl heb anabledd (12.4%). Pobl Iddewig sydd fwyaf tebygol o ddioddef troseddau (19.1%) a Hindŵiaid yw'r lleiaf tebygol (10.9%). Pobl sydd wedi'u gwahanu sydd fwyaf tebygol o ddioddef troseddau personol (19.2%) a phobl weddw yw'r lleiaf tebygol (9.1%). Mae pobl hoyw/lesbiaidd a deurywiol (tua 19%) yn fwy tebygol na phobl heterorywiol/strêt (13.2%) o fod yn ddioddefwyr.[43]

28. Nid ydym wedi gallu cael data ar nodweddion gwarchodedig ailbennu rhywedd na beichiogrwydd a mamolaeth.

*<u>Opsiwn 2c:</u> Newid y terfyn amser i dair blynedd ar gyfer pob ymgeisydd a oedd yn blant dan 18 oed ar ddyddiad y digwyddiad a arweiniodd at yr anaf*

29. Byddai'r opsiwn hwn o fudd i bobl iau, sef y rheini a oedd yn blant ar adeg eu hanafu gan drosedd treisgar, gan y byddai'n rhoi mwy o amser iddynt wneud cais am iawndal. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn berthnasol i oedolion sy'n ddioddefwyr.

30. Er nad oes llawer o ddata ar gael ar nodweddion gwarchodedig plant sy'n ddioddefwyr troseddau yn gyffredinol, mae data ar nodweddion gwarchodedig dioddefwyr o ran cam-drin plant yn rhywiol yn awgrymu bod merched a phlant ag anableddau yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr (paragraffau 22 i 23).

31. Nid ydym wedi gallu cael gafael ar ddata sy'n dadansoddi ystadegau plant sy'n ddioddefwyr yn ôl pob trosedd neu nodweddion gwarchodedig hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas a phartneriaeth sifil.

---

41 ONS, Tachwedd 2022, The nature of violent crime in England and Wales: Year ending March 2022 – appendix tables https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/thenatureofviolentcrimeappendixtables

42 Gov.uk, June 2021, Ethnicity Facts and Figures: Victims of Crime https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/crime-justice-and-the-law/crime-and-reoffending/victims-of-crime/latest

43 ONS, Gorffennaf 2022, Crime in England and Wales: Annual Trend and Demographic Tables https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/crimeinenglandandwalesannualtrendanddemographictables

## Aflonyddu ac erledigaeth

32. Nid ydym o’r farn y bydd yr opsiynau hyn yn arwain at aflonyddu nac erledigaeth.

## Anabledd a’r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

33. Gall opsiynau ar gyfer diwygio’r Cynllun ar gyfer dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol a throseddau eraill fod o fudd i’r rheini sydd ag anableddau gan fod ymchwil yn awgrymu y gallai troseddu effeithio’n anghymesur ar y grŵp hwn.

34. Mae’n dal yn bwysig gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dioddefwyr anabl er mwyn sicrhau bod cymorth priodol yn cael ei roi.

## Hyrwyddo cyfle cyfartal

35. Ystyriwyd ym mha ffordd y mae’r hyn enghreifftiau o ddiwygiadau posibl yn effeithio ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal drwy fodloni anghenion dioddefwyr sy’n rhannu nodwedd benodol, pan fo’r anghenion hynny’n wahanol i angen y rheini nad ydynt yn rhannu’r nodwedd benodol honno.

36. Rydym yn ystyried y gallai’r enghreifftiau a amlinellir hybu cyfle cyfartal ar gyfer rhai nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, gall diwygio’r Cynllun fel bod gan rai/pob dioddefwr gyfnod hwy i wneud cais i’r Cynllun, neu i ehangu’r diffiniad o drosedd o drais at ddibenion y Cynllun, fod o fudd i ddioddefwyr â nodweddion gwarchodedig sy’n fwy agored i’r troseddau hyn.

## Meithrin perthynas dda

37. Rydym o’r farn ei bod yn annhebygol y bydd yr opsiynau sy’n cael eu hystyried yn effeithio ar yr amcan hwn.

## Gwneud penderfyniadau

38. Nid ydym yn credu bod yr opsiynau uchod yn debygol o arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar ben hynny, fel y disgrifir uchod, rydym yn credu ei bod yn debygol y bydd yr opsiynau’n hyrwyddo cyfle cyfartal i ddioddefwyr. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried ymatebion i ystyriaethau cydraddoldeb yn yr ymgynghoriad hwn yn gyffredinol gyda'r rhai o ymgynghoriadau 2020 a 2022. Bydd effeithiau unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt i’r Cynllun ar gydraddoldeb yn cael eu hystyried pan fydd data newydd perthnasol ar gael.

E02920603

978-1-5286-4156-2